Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

At: Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Safonau

Dyddiad: 17 Medi 2018

Rhif Union: 01824 712624

e-bost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Aelod o'r Pwyllgor,

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR SAFONAU, DYDD GWENER, 21 MEDI 2018** am **10.00 am** yn **YSTAFELL GYNHADLEDD 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I DDOD I'R RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2018 (copi ynghlwm).

**5 CAIS AM OLLYNGIAD GAN GYNGOR CYMUNED LLANBEDR DYFFRYN CLWYD** (Tudalennau 11 - 26)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynglwm) ynglŷn â chais am ollyngiad a wnaed gan aelodau Cyngor Cymuned Llanbedr Dyffryn Clwyd

**6 OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU - LLYFR ACHOSION COD YMDDYGIAD** (Tudalennau 27 - 38)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) yn hysbysu'r aelodau am gyhoeddiad diweddaraf Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon.

**7 CYTUNO I ROI GOLLYNGIADAU** (Tudalennau 39 - 46)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) sydd yn sôn am y Pwyllgor hwn yn cytuno i roi gollyngiadau a'r Arweiniad y dylai ei roi i Gynghorau Tref, Dinas a Chymuned yn ogystal ag aelodau etholedig o'r Cyngor Sir mewn perthynas â'r broses o allu gwneud cais am ollyngiad.

**8 PANEL DYFARNU CYMRU - CANLLAW AR GOSBAU** (Tudalennau 47 - 72)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) sydd yn ymwneud â'r canllawiau ar gosbau a gyhoeddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru i'w defnyddio gan Dribiwnlys Achos neu Dribiwnlys Apêl pan ddarganfyddir bod Cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad yr Aelodau.

**9 ADBORTH O GYNHADLEDD SAFONAU**

Ystyried adroddiad llafar gan y Cadeirydd.

**10 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD**

Nodi presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Safonau yng nghyfarfodydd Cynghorau Sir, Tref a Chymuned a derbyn eu hadroddiadau.

**11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 73 - 74)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau (copi ynghlwm).

**12 DYDDIAD Y CYRFARFOD NESAF**

Trefnwyd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau am 10am ar y 30 Tachwedd 2018 yn Neuadd y Sir, Rhuthun.

**RHAN 2: EITEMAU CYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod trafod y mater canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraff 12 ac 13 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

**13 COD YMDDYGIAD - RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**
(Tudalennau 75 - 80)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Swyddog Monitro (copi wedi'i amgáu) sy'n rhoi trosolwg o gwynion yn erbyn aelodau a gyflwynwyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

**AEOLODAETH**

Aelodau Annibynnol:
Ian Trigger (Cadeirydd), Julia Hughes, Anne Mellor, Peter Lamb a Gordon Hughes

Aelod Cyngor Tref / Cymuned

Cynghorwyr Sir
Y Cynghorydd Paul Penlington
Y Cynghorydd Andrew Thomas

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR SAFONAU**

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn Conference Room 1A, County Hall, Wynnstay Road, Ruthin LL15 1YN, Dydd Mawrth, 10 Gorffennaf 2018 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Aelodau Annibynnol – Ian Trigger (Cadeirydd), Julia Hughes (Is-Gadeirydd), Ann Mellor a Peter Lamb.

Cynghorwyr – Gordon Hughes, Paul Penlington ac Andrew Thomas

**HEFYD YN BRESENNOL**

Swyddog Monitro (GW) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)
Arsyllwr– Heidi Roberts (Cyfreithiwr)

**1 YMDDIHEURIADAU**

Dim

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd y Cynghorydd Gordon Hughes gysylltiad personol a oedd yn rhagfarnu yn eitem 11 gan ei fod yn aelod o Gyngor Tref Corwen.

Datganodd y Cynghorydd Paul Penlington gysylltiad personol yn eitem 11 gan ei fod yn destun cwyn (a wrthodwyd).

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 3 Ebrill 2018.

Tudalen 6 (Eitem 6 – trydydd paragraff) – dylai fod yn "Flintshire County Council" nid "Flintshire City Council" yn y fersiwn Saesneg.
Tudalen 7 (Eitem 7 – trydydd paragraff) dylai fod yn "set up to look ...." nid "set up too look ....." ar y fersiwn Saesneg.
Tudalen 8 (Eitem 8 – trydydd paragraff) – dylid cynnwys datganiad gyda'r frawddeg "Cadarnhaodd y DM y gallai aelodau'r Pwyllgorau Safonau hawlio costau teithio pe baent yn mynd i gyfarfodydd Cynghorau Tref, Cymuned a Dinas ar ran y Pwyllgor Safonau, ond nid ffi ddyddiol."

**Materion yn codi:**

Tudalen 9 – cytunwyd y byddai rhestr wedi'i ddiweddaru o ymweliadau â Chynghorau Tref a Chymuned yn cael ei chylchredeg. Hefyd byddem yn edrych ar y posibilrwydd o gael amserlen o ymweliadau yn y dyfodol a byddai'r wybodaeth yn cael ei chylchredeg ddiwedd yr haf.

***PENDERFYNWYD –*** *yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Ebrill 2018 fel cofnod cywir.*

**5 LLYFR ACHOSION COD YMDDYGIAD - OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn hysbysu aelodau o'r rhifyn diweddaraf o Lyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2018.

Amlinellwyd crynodeb o'r tri chwyn a archwiliwyd yn ystod y cyfnod hwn yn yr adroddiad a rhoddodd y Dirprwy Swyddog Monitro grynodeb ohonynt. Nid oedd unrhyw un o'r achosion yn ymwneud â Chynghorwyr yn Sir Ddinbych.

Roedd dau achos yn ymwneud â datgelu a chofrestru cysylltiad pan roedd eu Cynghorau Cymuned unigol yn ystyried ceisiadau cynllunio. Yn y ddau achos, canfu'r Ombwdsmon fod y Cynghorwyr dan sylw wedi methu a datgelu cysylltiadau personol a rhai sy'n rhagfarnu yn gywir a gadael yr ystafell pan roedd yr eitemau hynny'n cael eu hystyried. Yn y ddau achos, canfu'r Ombwdsmon fod digon o liniaru mewn perthynas ag amgylchiadau'r cyhuddiadau fel na ystyriwyd bod angen cymryd unrhyw gamau gweithredu.

Roedd yr achos yn ymwneud â chyhuddiad fod Cynghorydd a oedd yn Gadeirydd y Cyngor perthnasol a phrosiect cymunedol wedi trefnu fod swm o arian a fwriadwyd i'r Cyngor yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r prosiect, a drwy wneud hynny, roedd wedi defnyddio adnoddau'r Cyngor yn amhriodol ac wedi dwyn anfri ar y Cyngor. Canfu'r Ombwdsman na ellid fod wedi talu'r arian i'r Cyngor, felly ni chafodd yr honiad yn ymwneud â'r defnydd o adnoddau ei wneud, ond, wrth gynrychioli ei hun fel ei fod yn gweithredu ar ran y Cyngor ar draul grwpiau eraill roedd wedi dwyn anfri ar y Cyngor. Penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd angen gweithredu gan fod y Cynghorydd yn amhrofiadol, a'i fod yn credu ei fod, er yn anghywir, yn gweithredu er lles y cyhoedd ac nad oedd wedi elwa'n bersonol mewn unrhyw ffordd.

Ni chyfeiriwyd unrhyw achos ychwaith at Bwyllgor Safonau na Phanel Dyfarnu Cymru.

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor Safonau yn nodi'r wybodaeth sydd yn Llyfr Achosion y Cod Ymddygiad.*

## 6 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD 2017

Cyflwynodd y Swyddog Monitro'r adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) gan gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2017 i'w ystyried cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn.

Agorodd y Swyddog Monitro’r drafodaeth gan ofyn i'r aelodau a oeddent yn teimlo y dylid trafod unrhyw faterion neu bwyntiau pellach pan gaiff ei drafod gyda'r Cyngor llawn.

Yn ystod y drafodaeth, tynnwyd sylw at yr eitemau a ganlyn i’w cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol:

- Perygl cyfryngau cymdeithasol
- Hyfforddiant
- Ymweliadau â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned
- Gofynnwyd hefyd i nodyn gael ei wneud fod y cyfarfod wedi ei ganslo yn sgil tywydd garw.

Gofynnodd y Cadeirydd am wybodaeth o ran pa ganran o Gynghorwyr Sir a oedd hefyd yn Gynghorwyr Dinas, Tref a Chymuned. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai’n canfod yr wybodaeth ac yn ei chylchredeg i aelodau’r Pwyllgor.

Mynegodd y Cadeirydd bryder gan nad oedd pob cais am oddefeb yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Safonau. Cadarnhawyd y byddai hysbysiad ar y broses yn cael ei chylchredeg i bob Clerc Tref ar ffurf Canllaw “Sut i”.

Cadarnhawyd y byddai’r Swyddog Monitro yn dod â’r daflen wybodaeth i’r Pwyllgor Safonau ym mis Medi 2018.

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar yr uchod, y dylai’r aelodau nodi'r adroddiad ac argymell bod y Cadeirydd yn ei gyflwyno i’r Cyngor llawn.*

## 7 CANLLAW AR DDEFNYDDIO CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Cyflwynodd y Swyddog Monitro’r adroddiad ( a ddosbarthwyd yn flaenorol) i roi gwybod i’r Pwyllgor am y canllawiau drafft ar ddefnydd staff ac Aelodau o gyfryngau cymdeithasol, a chanllawiau drafft CLlLC a gofyn am eu sylwadau.

Roedd gweithgor o staff ac aelodau etholedig wedi cyfarfod i drafod yr arweiniad a gafwyd. Roedd y Canllaw Cyfryngau Cymdeithasol drafft, sydd ynghlwm i’r adroddiad, wedi ei ddatblygu gan y Tîm Cyfathrebu’n dilyn y trafodaethau.

Byddai’r Canllaw yn cynnig cyngor i staff ac aelodau etholedig ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn modd effeithiol, cyfreithlon a pharchus.

Roedd yr Ombwdsman wedi pwysleisio’r angen i aelodau etholedig weithredu egwyddorion y Cod Ymddygiad wrth iddynt ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.

Roedd CLlLC wrthi'n diweddaru eu dogfen Ganllawiau. Roedd dogfen CLlLC yn llawer hirach na chanllaw Sir Ddinbych ond roedd yn cynnwys llawer o wybodaeth esboniadol yn ymwneud â'r gwahanol sianeli cyfryngau cymdeithasol sydd ar gael.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod Canllaw Cyfryngau Cymdeithasol Sir Ddinbych ar ffurf drafft ac unwaith y byddai'n cael ei gymeradwyo, byddai'n cael ei ddarparu yn Gymraeg a Saesneg. Byddai copi o'r dogfennau terfynol yn cael eu hanfon at bob Cyngor Dinas, Tref a Chymuned.

Cafwyd cyfeiriad at hyfforddiant ychwanegol ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn briodol a chadarnhawyd y byddent yn cysylltu â'r tîm Cyfathrebu i holi a allent gynnal gweithdy cyfryngau cymdeithasol ar gyfer Cynghorwyr ac aelodau annibynnol Pwyllgorau.

Codwyd y mater o gyhoeddi ffotograffau o blant, a chadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai angen caniatâd gan y rhiant / gwarcheidwad ond y byddai'n cadarnhau gyda'r Tîm Cyfathrebu.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Swyddog Monitro adrodd yn ôl i'r cyfarfod ym mis Medi yn dilyn trafodaethau gyda'r Tîm Cyfathrebu.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, roedd y Pwyllgor yn nodi cynnwys Canllaw Cyfryngau Cymdeithasol drafft Sir Ddinbych ar gyfer Staff ac Aelodau ynghyd â dogfen Ganllawiau drafft CLlLC a chyflwyno adroddiad wedi ei ddiweddaru yn ôl i'r Pwyllgor Safonau yn y cyfarfod nesaf ym mis Medi 2018.*

## 8 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Roedd Julia Hughes wedi bod i Gyngor Cymuned Cyffylliog y noson cynt. Roedd angen diweddaru'r wefan. Roedd y Cadeirydd wedi arwain y cyfarfod yn dda ac wedi'i gynorthwyo gan y Clerc. Roedd yn gyfarfod cadarnhaol ac wedi ei gynnal yn dda.

Roedd Ian Trigger a Julia Hughes wedi bod i Fforwm Safonau Gogledd Cymru a oedd wedi'i gynnal; ar 29 Mehefin 2018.

Roedd Julia Hughes wedi paratoi taflen yn rhoi crynodeb o'r trafodaethau oedd wedi bod.

Clywodd Aelodau am Gynhadledd Cymru Gyfan a gynhaliwyd ar 14 Medi 2018 a gofynnwyd i bobl fynegi diddordeb. Cynhaliwyd y Gynhadledd bob dwy flynedd a bwriadwyd ei gynnal yng Ngogledd Cymru yn 2020.

Diolchodd y Cadeirydd i Julia Hughes am ei chyflwyniad yn rhoi crynodeb o'r fforwm a'i diweddariad ar Gyngor Cymuned Cyffylliog.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r presenoldeb a diweddaru'r adroddiad presenoldeb i gynnwys yr ymweliad gan Julia Hughes**.***

## 9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau i'w ystyried.

Cadarnhawyd y byddai adroddiad yn dilyn Cynhadledd Safonau Cymru Gyfan yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau a fyddai'n cael ei gynnal ar 21 Medi 2018.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y diwygiadau uchod, bod y Pwyllgor Safonau'n cytuno ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.*

## 10 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

21 Medi 2018 i'w gynnal yn Siambr y Cyngor, Rhuthun am 10.00a.m.

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

## 11 COD YMDDYGIAD – RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Datganodd y Cynghorydd Gordon Hughes gysylltiad personol a oedd yn rhagfarnu gan ei fod yn aelod o Gyngor Tref Corwen. Ar y pwynt hwn, gadawodd yr ystafell ac ni chymerodd ran yn y trafodaethau.

Datganodd y Cynghorydd Paul Penlington gysylltiad personol gan ei fod yn destun cwyn a gafodd ei gwrthod ers hynny.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro'r adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i roi trosolwg i'r Aelodau o'r cwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ers 1 Ebrill 2014.

Roedd y Pwyllgor Safonau eisoes wedi gofyn am gael gwybod yn rheolaidd am lefel y cwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Roedd Rhan 1 y tablau'n rhoi manylion yr eitemau a gwblhawyd.

Roedd Rhan 2 y tablau yn cynnig manylion cwynion parhaus.

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y Pwyllgor y byddai colofn ychwanegol yn cael ei hychwanegu at y tablau yn y dyfodol i gynnwys rheswm pam nad oeddynt yn parhau i ymchwilio a hefyd os byddai unrhyw argymhellion a gyflwynwyd e.e. hyfforddiant a argymhellwyd yn cael ei ychwanegu i'r tabl. Byddai gwybodaeth yn cynnwys dyddiad y derbyniwyd y gŵyn a'r dyddiad y cwblhawyd yr achos hefyd yn cael ei chynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Safonau yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.10pm.**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r i:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **21 Medi 2018** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Cais am Ollyngiad gan Aelodau o Gyngor Cymunedol Llanbedr, Dyffryn Clwyd** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

**1.1** Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â chais am ollyngiad gan Aelodau Cyngor Cymunedol Llanbedr, Dyffryn Clwyd

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

**2.1** Galluogi'r Pwyllgor i ystyried cefndir y cais am ollyngiad a'r darpariaethau cyfreithiol perthnasol cyn penderfynu a ddylid caniatáu'r gollyngiad.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

**3.1** Dylai'r Pwyllgor ystyried y cais am ollyngiad a phenderfynu a ddylid caniatáu'r gollyngiad ac, os felly, y sail dros ganiatáu'r gollyngiad.

## 4. Manylion yr adroddiad

**4.1** Mae Cod Ymddygiad yr Aelodau yn datgan fod yn rhaid i aelod o awdurdod lleol sydd â chysylltiad sy'n rhagfarnu mewn mater adael y siambr pan fydd y mater hwnnw yn cael ei drafod ac yn peidio â chymryd unrhyw ran wrth ystyried y mater hwnnw, oni bai fod yr aelod wedi cael gollyngiad gan Bwyllgor Safonau'r awdurdod hwnnw.

**4.2** Mae a81(4) Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi grym i'r Pwyllgorau Safonau i ganiatáu gollyngiadau yn unol â rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan a81(5) y Ddeddf yn rhagnodi'r amgylchiadau hynny lle gallant wneud hyn.

**4.3** Y rheoliadau perthnasol yw Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 (y Rheoliadau).

**4.4** Ar 3ydd Ebrill 2018 ystyriodd y Pwyllgor gais am ollyngiad ar ran aelodau o Gyngor Cymuned Llanbedr DC yn ymwneud ag aelodaeth o gymdeithas gymunedol mewn perthynas â phrosiect Hyb Cymunedol yn y Griffin Inn. Rhoddodd y Pwyllgor ollyngiad i ddau aelod o'r Cyngor Cymuned. Caniatawyd yr ollyngiad am gyfnod o chwe mis, sy'n dod i ben ar 3ydd Hydref 2018. Amgaeir copi o'r adroddiad a'r dogfennau ategol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 3ydd Ebrill yn Atodiad 1.

**4.5** Mae'r Swyddog Monitro bellach wedi derbyn cais am estyniad i'r gollyngiad mewn perthynas â'r ddau gynghorydd y rhoddwyd y caniatâd iddynt ym mis Ebrill, y cynghorwyr Lyn Evans a Tim Baker, ynghyd â chais am gynghorydd ychwanegol i'w caniatáu, sef y Cyng. Dave Ritchie. Mae manylion y cais hwn i'w gweld yn Atodiad 2 ac Atodiad 3 ynghlwm.

**4.6** Mae’r Rheoliadau yn amlinellu ar ba sail y gall y Pwyllgor Safonau ganiatáu gollyngiad. Amlinellir Rheoliad 2 y Rheoliadau fel Atodiad 2 yr adroddiad hwn ac mae’n rhestru dan ba amgylchiadau y gellir caniatáu gollyngiad. Awgrymir mai’r amgylchiadau mwyaf perthnasol i’r cais hwn yw’r rhai a amlinellir yn Rheoliad 2(a), (d), a (h)

**4.7** Os yw’r Pwyllgor o blaid caniatáu gollyngiad, rhaid iddo ystyried a yw’n dymuno caniatáu’r gollyngiad yn unol â’r cais neu a yw'n gosod unrhyw gyfyngiad ar weithrediad y gollyngiad, gan gynnwys am ba hyd y bydd y gollyngiad mewn grym.

**4.8** Os caniateir gollyngiad, rhaid i unrhyw aelod sy’n elwa o hyn barhau i ddatgan cysylltiad personol mewn unrhyw fater yn ymwneud â’r corff gwirfoddol a datgan bodolaeth a natur y gollyngiad a roddwyd.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Nid yw'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol ar y Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

**6.1** Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad cyflawn yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn**

**7.1** Nid yw’r adroddiad hwn yn ceisio cyflwyno newid neu gynnig a fyddai’n gofyn am asesiad o’r fath.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

**8.1** Ni ymgynghorwyd ag Archwilio mewn perthynas â’r mater hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

**9.1** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o ganlyniad i’r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

**10.1** Mae risg na fyddai Aelodau yn gallu ystyried ceisiadau am gymorth ariannol gan y corff gwirfoddol os nad ydynt yn cael gollyngiad.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

**11.1** a81(4) Deddf Llywodraeth Leol 2000 Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001

**Adroddiad i'r i:** Pwyllgor Safonau

**Dyddiad y Cyfarfod:** 3 Ebrill 2018

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Gary Williams, Swyddog Monitro

**Awdur yr Adroddiad:** Gary Williams, Swyddog Monitro

**Teitl:** Cais am Ollyngiad gan Aelodau o Gyngor Cymunedol Llanbedr, Dyffryn Clwyd

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

**1.1** Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â chais am ollyngiad gan Aelodau Cyngor Cymunedol Llanbedr, Dyffryn Clwyd

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

**2.1** Galluogi'r Pwyllgor i ystyried cefndir y cais am ollyngiad a'r darpariaethau cyfreithiol perthnasol cyn penderfynu a ddylid caniatáu'r gollyngiad.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

**3.1** Dylai'r Pwyllgor ystyried y cais am ollyngiad a phenderfynu a ddylid caniatáu'r gollyngiad ac, os felly, y sail dros ganiatáu'r gollyngiad.

## 4. Manylion yr adroddiad

**4.1** Mae Cod Ymddygiad yr Aelodau yn datgan fod yn rhaid i aelod o awdurdod lleol sydd â chysylltiad sy'n rhagfarnu mewn mater adael y siambr pan fydd y mater hwnnw yn cael ei drafod ac yn peidio â chymryd unrhyw ran wrth ystyried y mater hwnnw, oni bai fod yr aelod wedi cael gollyngiad gan Bwyllgor Safonau'r awdurdod hwnnw.

**4.2** Mae a81(4) Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi grym i'r Pwyllgorau Safonau i ganiatáu gollyngiadau yn unol â rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan a81(5) y Ddeddf yn rhagnodi'r amgylchiadau hynny lle gallant wneud hyn.

**4.3** Y rheoliadau perthnasol yw Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 (y Rheoliadau).

**4.4** Mae'r Swyddog Monitro wedi derbyn cais am ollyngiad gan Glerc Cyngor Cymunedol Llanbedr Dyffryn Clwyd ar ran aelodau presennol y Cyngor Cymuned mewn perthynas â'u haelodaeth o gorff gwirfoddol, sy'n cael ei gynnwys mewn creu canolfan gymunedol yn y Griffin Inn ym mhentref Llanbedr. Mae copi o'r cais ynghlwm yn Atodiad 1. Mae'r cais wedi cael ei lofnodi gan bob un o aelodau presennol y Cyngor Cymunedol.

**4.5** Mae'r cais yn egluro y bydd yn rhaid i'r Cyngor Cymuned ystyried ceisiadau gan y corff hwn am gymorth ariannol ac am y rheswm hwn, mae aelodau'r Cyngor Cymunedol yn gofyn am ollyngiad.

**4.6** Mae'r Rheoliadau yn amlinellu ar ba sail y gall y Pwyllgor Safonau ganiatáu gollyngiad. Amlinellir Rheoliad 2 y Rheoliadau fel Atodiad 2 yr adroddiad hwn ac mae'n rhestru dan ba amgylchiadau y gellir caniatáu gollyngiad. Awgrymir mai'r amgylchiadau mwyaf perthnasol i'r cais hwn yw'r rhai a amlinellir yn Rheoliad 2(a), (d), a (h)

**4.7** Os yw'r Pwyllgor o blaid caniatáu gollyngiad, rhaid iddo ystyried a yw'n dymuno caniatáu'r gollyngiad yn unol â'r cais neu a yw'n gosod unrhyw gyfyngiad ar weithrediad y gollyngiad, gan gynnwys am ba hyd y bydd y gollyngiad mewn grym.

**4.8** Os caniateir gollyngiad, rhaid i unrhyw aelod sy'n elwa o hyn barhau i ddatgan cysylltiad personol mewn unrhyw fater yn ymwneud â'r corff gwirfoddol a datgan bodolaeth a natur y gollyngiad a roddwyd.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
Nid yw'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol ar y Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

**6.1** Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad cyflawn yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn**

**7.1** Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio cyflwyno newid neu gynnig a fyddai'n gofyn am asesiad o'r fath.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

**8.1** Ni ymgynghorwyd ag Archwilio mewn perthynas â'r mater hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

**9.1** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

**10.1** Mae risg na fyddai Aelodau yn gallu ystyried ceisiadau am gymorth ariannol gan y corff gwirfoddol os nad ydynt yn cael gollyngiad.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**
**11.1** a81(4) Deddf Llywodraeth Leol 2000 Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001

# Cyngor Cymuned LLANBEDR D.C. Community Council

**IFAN GWYN DAVIES**
**Clerc y Cyngor/Clerk to the Council**

**Rhif Teleffon/Telephone Number**
**(01824) 750283 - 07887 955613**
**e-bost/e-mail: ifandavies18@yahoo.co.uk**

Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
Legal and Democratic Services Department
30 NOV 2017

**11 Maes Caenog**
**Clocaenog**
**Rhuthun**
**LL15 2AU**

**Ein Cyf./Our Ref.**

**Eich Cyf./Your Ref.**

**Dyddiad/Date**

Mr G Williams
The Monitoring Officer
Denbighshire County Council
PO Box 62,
Ruthin LL15 9AZ

24th November 2017.

Dear Mr Williams,

**Re: Llanbedr Dyffryn Clwyd Community Council Dispensation Request under Regulation 2**

I attach details of how the Community Hub for Llanbedr Dyffryn Clwyd Project evolved, culminating in the purchase of the Griffin Inn by a local resident, who wishes to work with the Council in order to implement the recommendations in the Cadwyn Clwyd Consultant's Report.

The Council's chairman and vice chairman have been invited to help set up the Management Group, which will be responsible for creating the Community Hub and will appoint tenants to run the retail activities recommended by the Consultants.

The Outline Business Plan recommended by the Cadwyn Clwyd Consultant works on the premise that a Community Benefit Society (CBS) will be formed as a legal entity. It is likely that some or even all Community Councillors will wish to join the CBS.

The Council wishes to be pro-active in working the new owner, with the support and guidance of Cadwyn Clwyd. There will be a need to obtain grants to refurbish the Griffin Inn and the Council will need to obtain membership of organisations who can assist this project such as Pub is The Hub, The Plunkett Foundation and the Wales Co-operative Centre. Membership fees range from £50 for the Wales Co-operative Centre to £75 for Supporter membership of the Plunkett Foundation.

It is likely that volunteer groups will need to be established to support key elements of the Hub and Councillors will wish to join one or more these groups.

At the May Local Government Elections, eight people were nominated for the nine seats on Llanbedr DC Community Council. Two Councillors have since resigned so we currently have only six Councillors.

The Consultant's Report (see Appendix 3) includes: *initial management costs will be raised through a mix of a Community Share Offer, a possible Community Council loan and grant aid.* We anticipate that the Management

Group and the volunteer groups may need to request further financial support from the Council. The Council is also considering an increase in its precept to cover the need to support this project.

As our quorum is three members, the Council feels the need to request a Grant of Dispensation from the Standards Committee under the 2001 regulations. We anticipate that the dispensation will be needed for a period of no longer than 12 months.

We feel that the circumstances in which dispensations may be granted are covered in:

2 (d), (e), (f), (i) and (j) – see Appendix 2.2 for our justification.

We would appreciate it if this request can be considered at the next Standards Committee Meeting on 8th December 2017.

I attach a copy of the formal letter which each of my current Councillors has signed requesting this Grant of Dispensation from the Standards Committee. I would appreciate your guidance of the procedure future Councillors would have to follow to obtain a Grant of Dispensation.

The attached Appendices include *A Brief Time Line of the Activities that led to the Community Hub Concept* – see Appendix 2.1

I can also provide copies of our minutes, Community Newsletters, the Consultant's survey of the Community and the results. 350 surveys were put out to villagers and 155 were returned, representing a 42% return.

I did not want to overload you and again would be happy to be guided by you what other supporting documentation you would require.

Yours Sincerely

Gwyn Davies,
Clerk to the Council

# Cyngor Cymuned LLANBEDR D.C. Community Council

**IFAN GWYN DAVIES**
**Clerc y Cyngor/Clerk to the Council**

**Rhif Teleffon/Telephone Number**
**(01824) 750283  07887 955613**
**e-bost/e-mail: ifandavies18@yahoo.co.uk**

**11 Maes Caenog**
**Clocaenog**
**Rhuthun**
**LL15 2AU**

Mr G Williams
The Monitoring Officer
Denbighshire County Council
PO Box 62,
Ruthin LL15 9AZ

**Ein Cyf./Our Ref.**

**Eich Cyf./Your Ref.**

**Dyddiad/Date** 24/11/17

**Re: Llanbedr Dyffryn Clwyd Community Council Dispensation Request under Regulations 2**

Dear Mr Williams

The undersigned members of Llanbedr Dyffryn Clwyd Community Council request a Grant of Dispensation from the Standards Committee under the 2001 regulations. We anticipate that the dispensation will be needed for a period of no longer than 12 months.

I attach below details of the Community Hub for Llanbedr Dyffryn Clwyd Project for which this Grant of Dispensation is being made.

Yours Sincerely

Gwyn Davies,
Clerk to the Council

| | | |
|---|---|---|
| Cllr Lyn Evans | Chair of Llanbedr Dyffryn Clwyd Community Council | Lyn Evans |
| Cllr Tim Baker | Vice Chair of Llanbedr Dyffryn Clwyd Community Council | Tim Baker |
| Cllr Rhian Jones | Chairman of Leisure & Environmental Areas Advisory Committee (LEAAC) | |
| Cllr Linda Roberts | Llanbedr Dyffryn Clwyd Community Councillor | |
| Cllr Kenneth Tams | Llanbedr Dyffryn Clwyd Community Councillor | |
| Cllr Bob Barton | Llanbedr Dyffryn Clwyd Community Councillor | Bob Barton |

**Atodiad 2**

Statws: ✅ Cyfraith Mewn Grym

# Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001/2279

Daeth y fersiwn hon i rym o: **1 Ebrill, 2016** hyd at y **presennol**

(fersiwn 2 o 2)

## 2. Amgylchiadau lle gellir caniatáu gollyngiadau

Gall pwyllgor safonau awdurdod perthnasol ganiatáu gollyngiad dan adran 81(4) y Ddeddf lle -

(a) mae gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl y digwydd) y bydd y mater yn cael ei ystyried ganddynt gysylltiad sy'n ymwneud â'r mater hwnnw;

(b) mae gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet awdurdod perthnasol y bydd mater yn cael ei ystyried ganddynt gysylltiad sy'n ymwneud â'r mater hwnnw ac mae naill ai paragraff (d) neu (e) hefyd yn berthnasol;

(c) yn achos cyngor sir neu fwrdeistref sirol, byddai anallu'r aelod i gymryd rhan yn rhwystro cydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu bwyllgor yr awdurdod y byddai'r mater yn cael ei ystyried ganddynt i'r fath raddau fel y byddai'n debyg o gael effaith ar y canlyniad;

(d) mae natur cysylltiad yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y mater y mae'r cysylltiad yn ymwneud ag o yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y cynhelir materion yr awdurdod perthnasol.

(e) mae'r cysylltiad yn gyffredin i'r aelod a chyfran sylweddol o'r cyhoedd;

(f) mae cyfranogiad yr aelod yn y mater y mae'r cysylltiad yn ymwneud ag o wedi ei gyfiawnhau gan swydd neu arbenigedd yr aelod penodol;

(g) mae'r mater y mae'r cysylltiad yn ymwneud ag o yn mynd i gael ei ystyried gan bwyllgor trosolwg ac archwilio'r awdurdod perthnasol ac nid yw cysylltiad yr aelod yn gysylltiad ariannol;

(h) mae'r mater a fydd yn cael ei ystyried yn ymwneud â chyllid neu eiddo

sefydliad gwirfoddol y mae ei bwyllgor neu fwrdd rheoli yn aelod ohono heb law am fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw gysylltiad arall yn y mater ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gyfranogiad mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r mater hwnnw; [...][1]

(i) mae'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod er lles preswylwyr yr ardal o'r awdurdod perthnasol y dylid dileu'r analluedd [; neu] [2]

[(j) "mae'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod yn briodol mewn modd arall i ganiatáu gollyngiad.

] [3]

## Nodiadau

1 . Di-rymwyd y gair gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016/85 rheoliad 4(3)(a) (1 Ebrill, 2016)

2 . Disodlwyd y gair gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016/85 rheoliad 4(3)(a) (1 Ebrill, 2016)

3 . Ychwanegwyd y gair gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016/85 rheoliad 4(3)(a) (1 Ebrill, 2016)

Atgynhyrchir deunydd Hawlfraint y Goron gyda chaniatâd Rheolydd HMSO ac Argraffydd y Frenhines dros yr Alban

**Testun:** Llywodraeth Leol

Westlaw.UK

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

The Monitoring Officer

Denbighshire County Council

PO Box 62,

Ruthin LL15 9AZ

Dear Mr Williams,

**Re: Llanbedr Dyffryn Clwyd Community Council Dispensation Request under Regulations 2(h)**

The Council, at its meeting on 3rd September 2018, agreed to ask the Standards Committee to:

1. Extend the dispensation given to Cllr Lyn Evans and Cllr Tim Baker on 3rd April 2018;
2. Grant a dispensation to Cllr Dave Ritchie, whose appointment to the Griffin Community Hub Project's Management Committee was supported by the Council;
3. Grant an additional dispensation to each Community Councillor who wishes to purchase shares of The Griffin Community Benefit Society.

I attach a copy of the Griffin Community Hub Project July 2018 News Update. It shows the progress made on a wide range of fronts since the initial dispensation was given to Cllr Lyn Evans and Cllr Tim Baker.

The launch of the Prospectus for Shareholding for community ownership of "Our Griffin Ltd / Griffin Ni Cyfyngedig" Community Benefit Society has been delayed until the end of this month. This delay has been caused by a combination of the time taken to form the CBS, reg no 7819, which in turn has affected the time taken to create the share offer document. The Prospectus is currently awaiting validation approval from the Welsh Co-Op Shares Unit, which is expected to be given this week. The provisional timetable is:

| | |
|---|---|
| 21st September | Open Day as prelude to the launch of the Share Offer Prospectus; |
| 5th October | Hard launch of the Share Offer Prospectus; |
| 4th November | Community Afternoon Tea to promote the Share Offer Prospectus; |
| 17th November | Share Offer closes. |

The funds raised from these shares are crucial to the success of the Griffin Community Hub Project and this is one of the main reasons why our Councillors need the dispensation.

The bullet points in the July 2018 News Update shows key areas for which our Community Councillor members need dispensation, which includes:

i. Overseeing the Planning Application 16/2018/0646, submitted on 11th July 2018 - which automatically comes to the Council for comment;

ii. Overseeing the tendering and completion of the building work;

iii. Overseeing the negotiations of the head lease and the sub-lease to the tenant.

The Griffin Community Hub Project's Management Committee has been advised to allow at least seven months for all of this to be done.

It is also highly likely that almost all of our Community Councillors will wish to purchase shares of "Our Griffin Ltd / Griffin Ni Cyfyngedig" Community Benefit Society and this could mean we would be unable to be quorate for key agenda items. However, as this will not be known until shortly after the next Standards Committee meeting, we would appreciate your guidance on how we should proceed once details of Councillor Shareholdings are known.

Please advise me if you need any further information.

Yours Sincerely

Gwyn Davies,

Clerk to the Council

**Community Hub Report 2 July 2018**

1. Fleurets were commissioned, on the advice of "Pub is the Hub", to report on the viability of the Griffin given location and current market conditions. The report is tabled at this Council meeting. We were pleased that Fleurets expressed an opinion that the pub is viable and could be both a successful and profitable concern. The figures quoted are challenging, but are linked to the expectation of the appointment of a tenant with wide experience in both wet and dry sales. The management group adopted the report. There would be a differential in the rent paid to the owner, essentially for the building in its present state, and the rent charged to a tenant post refurbishment, and that differential would form the basis of gradual returns to the community following a successful share offer.

2. Our Community Benefit Society application has been received by Wales Co-op and is being processed.

3. Negotiations have begun over a "Heads of Terms" agreement between Sian, the owner, and the management group.

4. We hope to launch our share offer within the next month or so. Our target for the refurb is yet to be finally decided but we are looking at £150,000 - £200,000.

5. We were very pleased that following an application to the Plunket Foundatxion, we were pronounced eligible for "fully-funded action planning support". This is funded by the Esmee Fairbairn Foundation and we have met with our adviser, Kate Harrision, and had an extremely successful meeting (Kate is very experienced in exactly what we are trying to achieve) in which Kate began the process of guiding us through the share offer legalities and formalities. Work is beginning on drafting our share offer prospectus and we will meet again with Kate shortly.

6. Our current account stands at approximately £900, and our Cadwyn Clwyd account is just over £2,000, meaning that we have approx. £3,000 in hand. Out of this will have to come website launch and design and solicitor's fees for lease negotiations.

7. The Griffin is opening for Route 76 on the 14th of July and this is a venture mounted by Sian, who has promised to make a contribution, if successful, to the Community Hub funds.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Appendix 3

Dear Mr Williams,

I can now furnish you with the official reply to your email below dated 12 September 2018 as follows:-

1. The information included within my communication can be minuted/made public by the Standards Committee on the website etc.

2. A Community Council representative will be in attendance at the Standards Committee meeting.

3. The dispensation covers the three Councillors Lyn Evans, Tim Baker and Dave Ritchie only for the extension period sought.

4. The Community Council has agreed to consider applications from the "Our Griffin" for match funding grant projects, on the basis they are financially sound and for the benefit of the whole Llanbedr Community.

Yours sincerely,

Gwyn Davies,
Clerk to Llanbedr Dyffryn Clwyd Community Council.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **21 Medi 2018** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Llyfr Achosion Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn ymwneud â Llyfr Achosion Cod Ymddygiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am rifyn diweddaraf Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod aelodau'r Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth sydd yn y Llyfr Achosion Cod Ymddygiad.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Ers 2013 mae'r Ombwdsmon wedi cynhyrchu Llyfr Achosion Cod Ymddygiad (y Llyfr Achosion). Am beth amser cyn hynny bu'r Ombwdsmon yn cynhyrchu llyfr achosion oedd yn ymwneud â'r cwynion y bu'n ymchwilio iddynt o safbwynt camweinyddu honedig gan gyrff cyhoeddus. Yn dilyn galwadau i ddefnyddio dull tebyg o safbwynt cwynion cod ymddygiad, dechreuodd yr Ombwdsmon gyhoeddi'r Llyfr Achosion yn 2013.

4.2 Yn wreiddiol, roedd y Llyfr Achosion yn cael ei gyhoeddi ddwywaith y flwyddyn, fodd bynnag mae'r Ombwdsmon wedi penderfynu cynhyrchu'r llyfr achosion yn chwarterol o fis Ebrill 2015. Mae'r Llyfr Achosion yn cynnwys crynodeb o bob achos y mae'r Ombwdsmon wedi cwblhau ymchwiliad iddynt yn ystod y cyfnod perthnasol.

4.3 Cynhyrchwyd y Llyfr Achosion i gynorthwyo Aelodau ac eraill i ystyried a yw'r amgylchiadau y maent yn eu hwynebu yn arwain at dorri'r Cod. Roedd hyn yn ychwanegiad i gyhoeddi esiamplau gwirioneddol yng Nghanllaw Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynglŷn â'r Cod.

4.4 Bydd y Llyfr Achosion yn caniatáu mynediad i Bwyllgorau Safonau awdurdod lleol i wybodaeth am y ffordd mae Pwyllgorau Safonau eraill yng Nghymru yn gosod cosbau a chael gwared ar achosion ac yn helpu i esbonio pam, mewn rhai achosion y gall yr Ombwdsmon wrthod ymchwilio toriadau honedig ar y sail nad yw honiadau blaenorol tebyg wedi arwain at gosb.

4.5 Mae Atodiad 1 i’r adroddiad hwn yn cynnwys Rhifyn 17 y Llyfr Achosion a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018, yn trafod y cyfnod o fis Ebrill 2018 tan fis Gorffennaf 2018. Bydd Aelodau'n nodi bod tri chrynodeb achos yn y rhifyn hwn o'r llyfr achosion, un ohonynt a ddaeth i’r casgliad nad oedd tystiolaeth o dorri’r Cod a dau a ddaeth i’r casgliad nad oedd angen gweithredu. Nid oedd unrhyw un o’r achosion yn ymwneud â Chynghorwyr yn Sir Ddinbych.

4.6 Yn yr achos lle cafwyd canfyddiad nad oedd unrhyw dystiolaeth o dorri’r Cod, roedd yn cynnwys sylw gan Gynghorydd lle'r oedd wedi cyfeirio at rai aelodau staff fel "dynion marw yn cerdded". Honnwyd gan yr achwynydd yn yr achos hwn bod y sylw hwn wedi gwneud iddo ofni colli ei swydd. Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i'r gŵyn ond canfuwyd nad oedd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r gŵyn bod y sylw wedi'i gyfeirio'n benodol at yr achwynydd neu ei fod wedi’i fwriadu fel bygythiad uniongyrchol i swydd unrhyw un.

4.7 O'r ddau achos a arweiniodd at ganfyddiad nad oedd angen gweithredu pellach, roedd un yn gysylltiedig â datgelu a chofrestru cysylltiadau. Yn yr achos hwn, siaradodd aelod o Gyngor Tref Cas-gwent ar fater yr oedd wedi datgan cysylltiad sy'n rhagfarnu ar ei gyfer. Canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon ei bod hi'n debygol bod yr aelod wedi siarad yn y cyfarfod yn groes i baragraff 14 o'r Cod, ond ni ystyriwyd bod angen gweithredu pellach gan nad oedd y Cynghorydd wedi ceisio unrhyw fudd personol, roedd wedi gadael yr ystafell ar gyfer y bleidlais, roedd y Cadeirydd wedi dweud y gallai siarad ac nid oedd yr opsiwn a ffafriwyd ganddo yr un oedd y Cyngor wedi cytuno arno beth bynnag. Fodd bynnag, atgoffwyd yr aelod gan yr Ombwdsman o'i gyfrifoldebau o dan y Cod.

4.8 Roedd yr ail achos lle nad oedd angen unrhyw gamau pellach yn ymwneud â thorri paragraff 7 o'r Cod sy'n nodi na ddylai aelodau, yn eu rhinwedd swyddogol neu fel arall, ddefnyddio neu geisio defnyddio eu swydd yn amhriodol i greu anfantais i berson arall. Yn yr achos hwn, roedd Cynghorydd Cyngor Cymuned Trellech Unedig wedi ysgrifennu at ddyfarnwr cystadleuaeth, gan roi'r argraff ei fod yn ysgrifennu ar ran y Cyngor mewn ymgais i ddylanwadu'n negyddol ar gyfle un ymgeisydd penodol i ennill y gystadleuaeth. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod hyn yn torri'r Cod, fodd bynnag, enillodd yr ymgeisydd dan sylw’r gystadleuaeth felly nid oedd ymyrraeth y Cynghorydd wedi achosi unrhyw anfantais, ac ym marn yr Ombwdsmon nid oedd er lles y cyhoedd i gyfeirio'r mater i Bwyllgor Safonau ar gyfer gwrandawiad.

4.9 Ni chyfeiriwyd unrhyw achos ychwaith at Bwyllgor Safonau na Phanel Dyfarnu Cymru.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid yw'r adroddiad yn cael effaith uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â’r adroddiad.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Nid oes angen asesiad o'r effaith ar les ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Nid yw'r mater hwn wedi ei adrodd nac wedi ei ymgynghori arno yn unrhyw le arall.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risgiau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Nid oes angen penderfyniad.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Coflyfr
## Y Cod Ymddygiad

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Rhifyn 17 Gorffennaf 2018

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Dim tystiolaeth o dorri'r cod | 3 |
| Nid oes angen gweithredu | 4 |
| Cyfeiriwyd at bwyllgor safonau | 5 |
| Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru | 6 |
| Mwy o Wybodaeth | 7 |

# Cyflwyniad

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion o'r fath o dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Gorchmynion perthnasol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf.

Pan fydd yr Ombwdsmon yn penderfynu y dylid ymchwilio i gŵyn, mae yna bedwar canfyddiad, sydd wedi'u nodi yn adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, y gall yr Ombwdsmon eu datgan:

(a) nad oes tystiolaeth bod unrhyw achos o weithredu'n groes i god ymddygiad yr awdurdod;

(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn cysylltiad i'r materion a fu'n destun i'r ymchwiliad;

(c) bod angen cyfeirio'r mater i swyddog monitro'r awdurdod, i'w ystyried gan y pwyllgor safonau;

(ch) bod angen cyfeirio'r mater i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys (mae hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Yn amgylchiadau (c) a (d) uchod, mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon gyflwyno adroddiad am yr ymchwiliad i'r pwyllgor safonau neu dribiwnlys Panel Dyfarnu Cymru, yna byddant hwy'n ystyried y dystiolaeth a ganfuwyd gan yr Ombwdsmon, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a gyflwynir gan yr aelod dan sylw. Hwy hefyd fydd yn penderfynu a oes achos o weithredu'n groes i'r Cod ai peidio, ac os oes, pa gosb (os o gwbl) y dylid ei chyflwyno.

Mae'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yn cynnwys crynodebau o'r adroddiadau hynny lle cafwyd un o'r canfyddiadau wedi'u gosod allan uchod. Er hynny, yn achos canfyddiadau (c) a (d), bydd y Coflyfr Cod Ymddygiad ond yn cynnwys crynodebau'r achosion hynny y mae gwrandawiadau wedi'u cynnal gan y pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, a bod canlyniad y gwrandawiad hwnnw'n hysbys. Mae'r rhifyn hyn yn adrodd ar y cyfnod Ebrill i Mehefin 2018.

# Crynodebau Achosion

## Dim tystiolaeth o dorri'r cod

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful - Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch
Rhif achos: 201704719 - Cyhoeddwyd yr adroddiad yn Ebrill 2018

Cwynodd gweithiwr ("Yr Achwynydd") o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ("Y Cyngor") bod aelod etholedig o'r Cyngor ("Y Cynghorydd") wedi cyfeirio, mewn cyfarfod staff, at rai aelodau o staff fel 'dynion meirw'n cerdded'. Dywedodd yr Achwynydd bod y Cynghorydd wedi gwneud sylwadau pellach a arweiniodd at rai aelodau o staff i ddod i'r casgliad bod yr ymadrodd hwn yn cyfeirio ato ef. Dywedodd yr Achwynydd fod hyn wedi ei roi mewn ofn am ei swydd.
Ymchwiliodd yr Ombwdsmon y gŵyn ar y sail y gallai'r Cynghorydd fod wedi torri paragraffau 4(b), 4(c), 6 (1)(a) a 7(a) o'r Côd Ymddygiad i Aelodau ("Y Côd), sy'n ymwneud â dangos parch, ymddygiad bwlio, anfri a chreu anfantais i eraill.
Yn absenoldeb unrhyw gofnod ffurfiol o'r cyfarfod, cyfwelodd yr Ombwdsmon ddetholiad o'r rhai presennol, yn ogystal â'r Cynghorydd, yr Achwynydd a'i reolwr. Ystyriodd yr Ombwdsmon yr hyn a ddywedodd y Cynghorydd, ei esboniad o'r hyn yr oedd wedi'i olygu a sut y derbyniwyd ei sylwadau.
Canfu'r Ombwdsmon fod er i'r Cynghorydd ddefnyddio'r ymadrodd 'dynion meirw'n cerdded', nid oedd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r gŵyn bod y sylwad wedi'i gyfeirio'n benodol at yr Achwynydd neu fod bwriad iddo gael ei weld fel bygythiad i swydd unrhyw un. Casglodd yr Ombwdsmon nad oedd unrhyw dystiolaeth bod y Cynghorydd wedi torri'r Côd.

# Nid oes angen gweithredu

Cyngor Tref Cas-gwent - Datgelu a chofrestru buddiannau
Rhif Achos: 201703539 - Cyhoeddwyd yr adroddiad ym Mai 2018

Derbyniwyd cwyn bod aelod o Gyngor Tref Cas-gwent ("Cynghorydd A") wedi cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch trefniadau perchnogaeth a rheolaeth y dyfodol ar gyfer cyfleusterau cyhoeddus lleol mewn cyfarfod Cyngor Tref, er ei fod wedi datgan diddordeb personol yn y mater.
Cafnu ymchwiliad yr Ombwdsmon ei bod hi'n debygol fod Cynghorydd A wedi siarad yn y cyfarfod, er iddo gael diddordeb personol yn yr eitem, yn groes i ofynion paragraffau 14(1)(a), (c) a (e) o'r Côd Ymddygiad. Penderfynodd yr Ombwdsmon, er gwaethaf y ffaith bod y dystiolaeth yn awgrymu y bu toriad o'r Côd, ni ddylid cymryd unrhyw gamau pellach. Roedd hyn oherwydd nad oedd Cynghorydd A yn sefyll i elwa'n bersonol o unrhyw benderfyniad a wnaed, awgrymodd y dystiolaeth ei fod wedi tynnu'n ôl o'r ystafell ar gyfer y bleidlais, ni chafodd ei opsiwn dewisol ei gytuno gan y Cyngor, a mynegodd Cadeirydd y Cyngor y gall ef siarad. Fe wnaeth yr Ombwdsmon, fodd bynnag, atgoffa'r Cynghorydd A o'i ddyletswyddau mewn perthynas â diddordeb personol.

Cyngor Cymuned Tryleg Unedig - Gwrthrychedd a phriodoldeb
Rhif Achos: 201700946 - Cyhoeddwyd yr Adroddiad yn Ebrill 2018

Derby Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Cynghorydd ("Y Cynghorydd") o Gyngor Cymuned Tryleg Unedig ("Y Cyngor") wedi torri'r Côd Ymddygiad ar gyfer aelodau. Honnwyd fod y Cynghorydd wedi torri'r Côd pan ysgrifennodd at feirniad cystadleuaeth, gan roi'r argraff ei fod yn gweithredu fel cynrychiolydd o'r Cyngor, mewn ymgais i ddylanwadu'n negyddol ar gyfle cystadleuydd penodol rhag ennill y gystadleuaeth a thrwy hynny, creu anfantais i aelod o'r cyhoedd a fyddai'n elwa pe bai'r cystadleuydd hwnnw'n llwyddiannus.

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon a oedd camau'r Cynghorydd yn gyfystyr â thorri paragraff 7(a) o'r Côd Ymddygiad sy'n datgan na ddylid aelodau, yn eu gallu swyddogol neu fel arall, ddefnyddio neu ymdrechu i ddefnyddio eu safle'n amhriodol i greu anfantais ar gyfer person arall.

Canfu'r ombwdsmon y gallai'r Cynghorydd, drwy ysgrifennu at y beirniad gyda gwybodaeth wedi'i fwriadu i leihau'r tebygolrwydd o'r cystadleuydd penodol hwnnw'n ennill y gystadleuaeth a drwy lofnodi'r ohebiaeth honno fel Cynghorydd, fod wedi torri paragraff 7 (a).

Nododd yr Ombwdsmon, fodd bynnag, fod y cystadleuydd wedi ennill y gystadleuaeth ar ôl hynny, felly ni achosodd ymyriad y Cynghorydd anfantais wirioneddol i'r person dan sylw. Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd, ar gydbwysedd, er budd y cyhoedd i gyfeirio'r mater hwnnw at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru ac felly ni ddylid cymryd unrhyw gamau pellach.

# Cyfeiriwyd at y bwyllgor safonau

Nid oes crynodebau yn gysylltiedig â'r canfyddiad hwn

## Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru

Nid oes crynodebau yn gysylltiedig â'r canfyddiad hwn

## Mwy o wybodaeth

Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau neu adborth sydd gennych chi am Coflyfr y Cod Ymddygiad. Yn ogystal, byddem yn fodlon ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych ynghylch ei gynnwys. Mae modd anfon unrhyw ohebiaeth o'r fath mewn neges e-bost at Matthew.Aplin@ombwdsmon-cymru.org.uk neu i'r cyfeiriad canlynol:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn 01656 644200
Ffacs 01656 641199

e-bost holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk (ymholiadau cyffredinol)

Dilynwch ni ar Twitter: @OmbudsmanWales

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ein gwefan www.ombwdsmon-cymru.org.uk

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 21 Medi 2018 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Teitl:** | **Cytuno i roi Goddefebau** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn sôn am y Pwyllgor hwn yn cytuno i roi goddefebau yn ogystal â'r Arweiniad y dylai ei roi i Gynghorau Tref, Dinas a Chymuned yn ogystal ag aelodau etholedig o'r Cyngor Sir mewn perthynas â'r broses o allu gwneud cais am oddefeb.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Y rheswm dros lunio'r adroddiad hwn yw gofyn i'r Pwyllgor i gymeradwyo ffurflen gais a dogfen ganllawiau i aelodau o Gynghorau Tref, Dinas a Chymuned yn ogystal â Chynghorwyr Sir mewn perthynas â cheisiadau am oddefebau.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn ystyried y ddogfen ganllawiau drafft a'r ffurflen gais ynghlwm â'r adroddiad fel Atodiadau 1 a 2 y naill ar ôl y llall, ac yn cymeradwyo'r ddwy ddogfen yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau wedi'u crybwyll gan y Pwyllgor.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae'r Cod Ymddygiad yn nodi ym mharagraff 14(1) bod aelod gyda chysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw achos yn datgan y cysylltiad hynny ac yn gadael y siambr neu ystafell lle cynhelir y cyfarfod sy'n trafod yr achos. Ni ddylai'r aelod geisio dylanwadu ar unrhyw benderfyniad am yr achos ac ni ddylid gwneud unrhyw sylwadau ar lafar neu ar bapur yn gysylltiedig â'r achos.

4.2 Paragraff 14(3) yn galluogi i aelod gyda chysylltiad sy'n rhagfarnu i gymryd rhan mewn unrhyw gyfarfod lle mae ganddynt o bosib gysylltiad sy'n rhagfarnu ar yr amod fod ganddynt oddefeb gan y Pwyllgor Safonau. Ystyrir a chytunir ar geisiadau am oddefeb gan y Pwyllgor Safonau os yw'r pwyllgor yn fodlon fod un neu fwy o seiliau wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cytuno i roi Goddefebau) 2001.

4.3 Mae'r Pwyllgor wedi delio gyda nifer o geisiadau am oddefebau yn y blynyddoedd diwethaf, fodd bynnag mae'n bosib y bydd aelodau o'r Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned yn arbennig ddim yn gwneud defnydd o'r cyfleuster hwn.

4.4 Mae'r broses lle mae ceisiadau hyd yn hyn yn cael eu derbyn wedi bod drwy gyflwyno llythyr gan y Clerc i'r Cyngor perthnasol yn cynnwys y gwybodaeth gefndirol

yn ymwneud â’r cais.  Mae cyngor a chymorth i ymgeiswyr i’w gael gan y Swyddog Monitro neu’r Dirprwy Swyddog Monitro ar sail ad hoc.

4.5 O ystyried y nifer isel o geisiadau am oddefebau fe awgrymir y dylid atgoffa’r holl Glercod Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned o’r amgylchiadau lle gellir gwneud ceisiadau o’r fath. Awgrymir hefyd y byddai dogfen ganllawiau a phroses gwneud cais safonol o gymorth i'r Clercod wrth ddelio â cheisiadau ar ran eu haelodau.

4.6 Mae’r dogfen ganllawiau drafft ynghlwm fel Atodiad 1 i’r adroddiad hwn yn ceisio egluro’r amgylchiadau lle cytunir i roi goddefeb a’r broses ar gyfer ystyried hynny. Mae rhan o’r Rheoliadau perthnasol wedi’i atodi i’r dogfen ganllawiau.

4.7 Mae ffurflen gais drafft ynghlwm fel Atodiad 2 i’r Pwyllgor ei ystyried.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?**

Nid yw’r adroddiad hwn yn gofyn am Asesiad o Effaith ar Les.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Mae’r adroddiad yn edrych am safbwyntiau’r Pwyllgor ar y ddogfen ganllawiau a’r ffurflen gais. Nid oes unrhyw ymgynghoriadau eraill wedi'u cynnal

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae perygl, heb arweiniad pellach, y byddai rhai aelodau o Gynghorau sydd ddim yn ymwybodol o’u gallu i wneud cais am oddefeb, yn methu â chymryd rhan yn y broses o ystyried achosion lle mae ganddynt gysylltiad nas gyhoeddwyd heb elwa ar oddefeb.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adran 8 o Gyfansoddiad y Cyngor Sir

# Applications for the Grant of Dispensations by Standards Committee

## Guidance to Town, City and Community Councillors

## Background

The Model Code of Conduct provides at paragraph 14(1) that a member who has a prejudicial interest in any matter must declare that interest and leave the chamber or room in which a meeting considering that matter is being held. The member must not seek to influence any decision about that matter and must not make any oral or written representations in respect of it.

Paragraph 14(3) allows a member with a prejudicial interest to take part in any meeting in respect of which they might have a prejudicial interest provided that they have a dispensation granted by the Standards Committee.

## Grounds upon which an application may be based

Applications for a dispensation may be considered and granted by the Standards Committee if it is satisfied that there are one or more grounds contained within the Standards Committees (Grant of Dispensations)(Wales) Regulations 2001(the Regulations).

Under the Regulations, a Standards Committee may grant a dispensation where:

(a) no fewer than half of the members of the relevant authority or of a committee of the authority (as the case may be) by which the business is to be considered has an interest which relates to that business;

(b) no fewer than half of the members of a leader and cabinet executive of the relevant authority by which the business is to be considered has an interest which relates to that business and either paragraph (d) or (e) also applies;

(c) in the case of a county or county borough council, the inability of the member to participate would upset the political balance of the relevant authority or of the committee of the authority by which the business is to be considered to such an extent that the outcome would be likely to be affected;

(d) the nature of the member's interest is such that the member's participation in the business to which the interest relates would not damage public confidence in the conduct of the relevant authority's business;

(e) the interest is common to the member and a significant proportion of the general public;

(f) the participation of the member in the business to which the interest relates is justified by the member's particular role or expertise;

(g) the business to which the interest relates is to be considered by an overview and scrutiny committee of the relevant authority and the member's interest is not a pecuniary interest;

(h) the business which is to be considered relates to the finances or property of a voluntary organisation of whose management committee or board the member is a member otherwise than as a representative of the relevant authority and the member has no other interest in that business provided that any dispensation shall not extend to participation in any vote with respect to that business;

(i) it appears to the committee to be in the interests of the inhabitants of the area of the relevant authority that the disability should be removed

(j) it appears to the committee to be otherwise appropriate to grant a dispensation.

It is important to note that the Standards Committee has a discretion in respect of the grant of dispensations. Even if one of the grounds is made out, the Standards Committee does not have to grant the dispensation. The Standards Committee will have to be satisfied that it is in all the circumstances appropriate to grant the dispensation.

The Standards Committee may apply conditions to the grant of a dispensation and may determine the period of time during which the dispensation will remain in force, for example, a dispensation may be granted for a single meeting or for a period of time. No dispensation will be granted for a period of time beyond the date of the next scheduled local government election.

## **Procedure**

An application must be submitted on the application form, a copy of which is appended as Appendix 1 to this document.

Additional information may be submitted with the application form. Where more than one member seeks a dispensation in respect of the same interest they should each sign the application form or submit individual applications.

It will usually be expected that the Applicant or one of the applicants attend the relevant meeting of the Standards Committee at which the application is to be considered.

At such a meeting, the Applicant will explain the reason for the application and answer any questions that the Standards Committee may have with regard to the application.

The Standards Committee may ask the Applicant to withdraw in order that the Committee may deliberate.

The Applicant will be provided with written confirmation within 7 days of the Standards Committee's decision in respect of the application together with details of any conditions attached to any dispensation that may have been granted.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**……………………………..TOWN/CITY/COMMUNITY COUNCIL**

# APPLICATION FOR DISPENSATION TO THE STANDARDS COMMITTEE

**Appendix 2**

| | |
|---|---|
| **Name of Councillor** | |
| **Address** | |
| **Ward** | |
| **Nature of Dispensation sought** | |
| **Level of Dispensation sought (i.e. to speak only or to speak and vote)** | |
| **Relevant Paragraph under which Dispensation is requested (see overleaf)** | |
| **Details of the Prejudicial Interest** | |
| **Details of any position of responsibility/control held on Council (e.g. Chairman/Vice-Chairman)** | |

| | |
|---|---|
| **Signed:** | **Date:** |

**Circumstances when a Standards Committee may grant Dispensations**

The Standards Committees (Grant of Dispensations) (Wales) Regulations 2001 specifies that the Council's Standards Committee may grant dispensations under Section 81(4) of the Local Government Act 2000 where:

(a) no fewer than half of the Members of the Council or of a committee of the Council (as the case may be) by which the business is to be considered has an interest which relates to that business;

(b) no fewer than half of the Members of the Executive of the Council (i.e. Leader and Cabinet) by which the business is to be considered has an interest which relates to that business and either paragraph (d) or (e) also applies;

(c) Members' inability to participate would upset the political balance of the Council, or any of its committees by which the business is to be considered, to such an extent that the outcome would be likely to be affected;

(d) the nature of the Member's interest is such that the Member's participation in the business to which the interest relates would not damage public confidence in the conduct of the Council's business;

(e) the interest is common to the Member and a significant proportion of the general public;

(f) the participation of the Member in the business to which the interest relates is justified by the Member's particular role or expertise;

(g) the registerable interest relates to business, which is to be considered by an Overview and Scrutiny Committee of the Council, and the Member's interest is not a pecuniary/financial interest;

(h) the business relates to the finances or property of a voluntary organisation of whose management committee or board the Member is a member otherwise than as a representative of the Council and the Member has no other interest in that business, provided that any dispensation shall not extend to participation in any vote with respect to that business; or

(i) it appears to the Standards Committee to be in the interests of the inhabitants of the area of the Council that the disability should be removed, provided that written notification of the grant of the dispensation is given to the National Assembly for Wales within 7 days. Such a notification should specify the Member to whom the dispensation would apply and the Standards Committee's reasons why the disability should be removed.

(j) it appears to the committee to be otherwise appropriate to grant a dispensation.

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Safonau

**Dyddiad y cyfarfod:** 21st Medi 2018

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Gary Williams, Swyddog Monitro

**Awdur yr Adroddiad:** Gary Williams, Swyddog Monitro

**Teitl:** **Panel Dyfarnu Cymru - Canllaw ar Gosbau**

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn ymwneud â'r canllawiau ar gosbau (y Canllawiau) a gyhoeddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru (APW) i'w defnyddio gan Dribiwnlys Achos neu Dribiwnlys Apêl pan ddarganfyddir bod Cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad yr Aelodau (y Cod). Mae copi o'r Canllawiau ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Y rheswm dros wneud yr adroddiad hwn yw dod â'r Canllaw i sylw'r Pwyllgor.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod cynnwys y Canllaw yn cael ei nodi gan y Pwyllgor.

**4. Manylion yr Adroddiad**

4.1 Mae'r APW wedi cyhoeddi'r Canllawiau yn bennaf at ddibenion cynorthwyo Tribiwnlysoedd Achosion yr APW a Thribiwnlysoedd Apêl wrth ystyried y sancsiwn priodol i'w rhoi lle canfyddir bod Cynghorwyr wedi torri'r Cod. Mae'r Canllaw hefyd yn ceisio cyflawni rôl ehangach o gefnogi pawb, gan gynnwys pwyllgorau safonau lleol wrth wneud penderfyniadau priodol ynghylch sancsiynau.

4.2 Mae'r Canllaw wedi'i gyhoeddi gan yr APW yn unol â'i bwerau dan adran 75 (10) Deddf Llywodraeth Leol 2000 a daeth i rym ar 1 Medi 2018.

4.3 Mae'r Canllaw yn disgrifio

- rôl y fframwaith moesegol a'r Cod wrth hyrwyddo safonau cyhoeddus uchel ymhlith aelodau awdurdodau perthnasol yng Nghymru,
- rôl yr APW a phwrpas y drefn sancsiynau
- yr ymagwedd i'w chymryd gan Dribiwnlysoedd Achos ac Apeliadau APW wrth benderfynu ar sancsiwn unwaith y bydd canfyddiad o dorri'r cod wedi'i wneud

4.4 Mae'r Pwyllgor yn gyfarwydd â'r fframwaith moesegol a rôl yr APW. Bydd yr adroddiad hwn yn cyfeirio at y mathau o dribiwnlys a gynullwyd gan yr APW, pwrpas ac amrediad y sancsiynau sy'n agored iddynt a'u dull o roi sancsiwn fel y nodir yn y Canllawiau.

4.5 Gall APW sefydlu tri math o dribiwnlys, Tribiwnlys Achos, Tribiwnlys Interim a Thribiwnlys Apêl.

4.6 Mae Tribiwnlys Achos yn dribiwnlys annibynnol a benodwyd gan Lywydd yr APW i ystyried tor-honedig o'r Cod lle mae ymchwiliad llawn wedi'i gynnal gan swyddfa'r Ombwdsman ac mae adroddiad yr ymchwiliad wedi'i gyfeirio'n uniongyrchol at yr APW. Os bydd y Tribiwnlys Achos yn canfod bod y Cod wedi'i dorri, y sancsiynau sydd ar gael iddo yw:

- Dim gweithredu o gwbl
- Atal neu atal yn rhannol am hyd at 12 mis
- Diarddel am hyd at 5 mlynedd

4.6 Mae Tribiwnlys Achos Interim yn dribiwnlys annibynnol a benodwyd gan Lywydd yr APW pan fo ymchwiliad ar y gweill gan swyddfa'r Ombwdsman ond cyfeirir yr achos at yr APW i ystyried a ddylid atal yr aelod dan ymchwiliad neu ei atal yn rhannol hyd nes bydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau. Yr uchafswm cyfnod atal sydd ar gael mewn achosion o'r fath yw 6 mis, neu hyd ddiwedd yr ymchwiliad p'un bynnag yw'r lleiaf. Mewn achosion o'r fath, mae'r penderfyniad i atal yn weithred niwtral.

4.7 Mae Tribiwnlys Apêl yn dribiwnlys annibynnol a benodwyd gan Lywydd yr APW i ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau lleol. Mae Tribiwnlysoedd Apêl yn gyfrifol am adolygu'r penderfyniad bod aelod wedi torri'r Cod ac unrhyw sancsiwn a roddwyd. Gall y Tribiwnlys Apêl wrthdroi canfyddiad bod aelod wedi torri'r Cod. Os yw'r Tribiwnlys Apêl yn fodlon bod y Cod wedi'i dorri, gall gadarnhau a chymeradwyo unrhyw sancsiwn a roddwyd gan bwyllgor safonau neu gyfeirio'r mater yn ôl i'r pwyllgor safonau gydag argymhelliad ynghylch sancsiwn arall. Ni all y Tribiwnlys Apêl argymell sancsiwn nad oedd ar gael i'r pwyllgor safonau.

4.8 Wrth benderfynu ar y sancsiwn priodol, mae'r Canllaw yn nodi y bydd yn rhaid i'r APW gadw mewn cof egwyddorion sylfaenol tegwch, lles y cyhoedd, cymesuredd, cysondeb, cydraddoldeb a didueddrwydd. Rhaid i'r Tribiwnlys penodedig hefyd weithredu yn unol ag Erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) (yr hawl i wrandawiad teg)

4.9 Yn ogystal, mewn rhai achosion, bydd yn rhaid i'r Tribiwnlys ystyried, wrth naill ai ystyried a yw cynghorydd wedi torri'r Cod, neu wrth roi sancsiwn, a fyddai penderfyniad o'r fath yn dorri ar hawliau uwch rhyddid i lefaru y cynghorydd hwnnw o dan Erthygl 10 o'r ECHR.

4.10 Mae'r Canllawiau yn nodi proses pum cam ar gyfer Tribiwnlys i'w dilyn wrth benderfynu ar sancsiwn:

- Asesu difrifoldeb y toriad o'r Cod a'r canlyniadau i unigolion a / neu'r Cyngor
- Nodi'r math cyffredinol o sancsiwn sy'n fwyaf tebygol o fod yn briodol i'r toriad
- Ystyried unrhyw ffactorau gwaethygol neu liniaru
- Ystyried unrhyw addasiadau pellach sy'n angenrheidiol
- Cadarnhau'r penderfyniad ar sancsiwn a chynnwys esboniad o'r sancsiwn a roddir

4.11 Mae paragraffau 34 i 66 o'r canllawiau yn rhoi esboniad manwl pellach ar sut y dylid mynd i'r afael â'r pum cam hyn, gan gynnwys cyngor ar sut i asesu difrifoldeb toriad o'r Cod. Dylid ystyried natur a maint y toriad, bwriadau'r cynghorydd, unrhyw doriadau blaenorol a chanlyniadau'r toriad ar gyfer y Cyngor neu unrhyw unigolion yr effeithir arnynt gan y toriad.

4.12 Wrth ystyried sancsiwn, dylai Tribiwnlysoedd ddechrau trwy ystyried priodoldeb sancsiynau a fydd yn cael yr effaith leiaf. Mae paragraffau 36 i 38 yn rhoi enghreifftiau o ymddygiad sy'n debygol o arwain at sancsiynau llymach.

4.13 Mae'r Canllaw i'w groesawu gan ei fod yn rhoi strwythur i ystyried sancsiynau ac mae'n debygol o gynorthwyo nid yn unig aelodau'r APW ond hefyd aelodau pwyllgorau safonau lleol sy'n delio â materion o'r fath yn anaml.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen penderfyniad.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Nid oes angen asesiad o'r effaith ar les ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio barn y Pwyllgor ar y Canllawiau. Nid oes unrhyw ymgynghoriadau eraill wedi'u cynnal.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae perygl y byddai diffyg cysondeb ar draws Cymru, heb y Canllawiau, wrth benderfynu ar sancsiynau mewn achosion o'r fath.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adran 8 o Gyfansoddiad y Cyngor Sir.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PDC / APW

PANEL DYFARNU CYMRU
ADJUDICATION PANEL FOR WALES

# Canllaw ar Gosbau

**Cyhoeddwyd gan Lywydd Panel Dyfarnu Cymru dan Adran 75(10) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.**

## Rhagair gan y Llywydd

Mae’n bleser gennyf gyflwyno argraffiad newydd o’r *Canllaw ar Gosbau*. Mae’n egluro sut y bydd tribiwnlysoedd achos, tribiwnlysoedd apêl a thribiwnlysoedd achos interim Panel Dyfarnu Cymru yn gweithredu er mwyn gwneud penderfyniadau teg, cymesur a chyson ynglŷn â’r cosbau y dylid eu rhoi os yw unigolyn wedi torri’r Cod Ymddygiad lleol.

Datblygwyd y canllaw gan aelodau o Banel Dyfarnu Cymru ar ôl ymgynghori ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Swyddogion Monitro a phartïon eraill sydd â diddordeb. Hoffwn ddiolch i bawb am eu cyfraniadau. Rwy’n gobeithio y bydd y Canllaw hwn o gymorth i bawb arall sydd â diddordeb yn y Cod – yn fwyaf arbennig, aelodau o gynghorau sir a chymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru. Hyderaf ei fod yn dangos rôl bwysig aelodau lleol, gwerth democratiaeth leol ac ymrwymiad y Panel Dyfarnu i hyrwyddo safonau o’r radd flaenaf mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru.

**Claire Sharp**
**Llywydd Panel Dyfarnu Cymru**

## CYNNWYS

**Cyflwyniad** **tudalen 2**

- statws, diben a defnydd arfaethedig y Canllaw, a sut y mae'n berthnasol i'r cyhoedd, aelodau unigol, Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru.

**Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus** **tudalen 3**

- y Cod Ymddygiad, beth a ddisgwylir gan aelodau lleol a'r broses i'w dilyn pan honnir bod rhywun wedi torri'r Cod.

**Panel Dyfarnu Cymru** **tudalen 5**

- rôl Panel Dyfarnu Cymru, pwrpas y system gosbau a phwerau cosbi sydd ar gael i dribiwnlysoedd achos, tribiwnlysoedd apêl a thribiwnlysoedd achos interim Panel Dyfarnu Cymru.

**Dull Gweithredu'r Tribiwnlysoedd: egwyddorion sylfaenol** **tudalen 7**

- trosolwg o'r egwyddorion cyffredinol sy'n sail i ddull gweithredu cyffredinol tribiwnlysoedd achos, tribiwnlysoedd apêl a thribiwnlysoedd achos interim, yn fwyaf penodol, tegwch, budd y cyhoedd, cymesuredd, cysondeb, cydraddoldeb a didueddrwydd, ac Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

**Tribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Apêl: pennu cosb** **tudalen 9**

- y cosbau penodol sydd ar gael i dribiwnlysoedd achos a thribiwnlysoedd apêl a'r broses bum cam a ddefnyddir i asesu difrifoldeb digwyddiad, amgylchiadau lliniarol a gwaethygol perthnasol ac unrhyw ffactorau ehangach, a chanllaw ar sut i bennu'r gosb benodol a'i hyd; rhoddir sylw hefyd i bŵer y tribiwnlys i wneud argymhellion.

**Tribiwnlysoedd Achos Interim: pennu cosb** **tudalen 18**

- nodau arbennig tribiwnlysoedd achos interim, sef hwyluso ymchwiliad sy'n cael ei gynnal, a'r pwerau penodol sydd ar gael mewn ymateb i adroddiad, ac unrhyw argymhelliad, gan yr Ombwdsmon.

**Atodiad: dogfennau a chanllawiau perthnasol eraill** **tudalen 21**

## Cyflwyniad

1. Cyhoeddir y Canllaw hwn gan Lywydd Panel Dyfarnu Cymru (PDC) gan ddefnyddio pwerau sydd ar gael iddi dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000[1]. Ei brif ddiben yw cynorthwyo tribiwnlysoedd achos, tribiwnlysoedd apêl a thribiwnlysoedd achos interim PDC pan fyddant yn ystyried y gosb briodol i'w rhoi i aelod, neu gyn aelod, y canfyddir ei fod wedi torri Cod Ymddygiad ei awdurdod.

2. Mae'r Canllaw hwn yn disgrifio:

   i. rôl y fframwaith moesegol a'r Cod Ymddygiad wrth hyrwyddo safonau cyhoeddus uchel ymhlith aelodau o gynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru;

   ii. rôl Panel Dyfarnu Cymru (PDC) a phwrpas y system gosbau;

   iii. sut y bydd tribiwnlysoedd PDC yn pennu cosb ar ôl canfod bod rhywun wedi torri'r Cod.

3. Mae'r cosbau sydd yn y Canllaw hwn yn seiliedig ar y gwerthoedd sy'n sail i'r Cod Ymddygiad, yn fwyaf arbennig, pwysigrwydd sylfaenol hyrwyddo safonau o'r radd flaenaf mewn bywyd cyhoeddus lleol. Mae'r Canllaw'n ceisio cynorthwyo tribiwnlysoedd i bennu cosbau sy'n deg, yn gymesur ac yn gyson ym mhob achos.

4. Nid yw'r Canllaw'n rhagnodol, ac mae'n cydnabod y bydd y gosb a bennir gan dribiwnlys unigol yn ddibynnol ar ffeithiau ac amgylchiadau arbennig yr achos. Enghreifftiau yn unig sydd yn y Canllaw, ac ni fwriadwyd iddo ddatgan beth fydd yn digwydd ym mhob achos. Y tribiwnlysoedd fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â chosbau. Yn ogystal â'r Canllaw hwn, gallant ystyried ffactorau eraill sydd yn eu barn hwy'n angenrheidiol ac yn briodol. Nid yw'r Canllaw ychwaith yn effeithio ar gyfrifoldeb yr aelod cyfreithiol o dribiwnlys i roi cyngor ar faterion cyfreithiol, gan gynnwys cymhwysedd penodol adrannau perthnasol o'r Canllaw hwn.

5. Drwy amlinellu'r ffactorau y dylai tribiwnlys eu hystyried wrth benderfynu ynglŷn â chosb briodol, mae'r Canllaw'n cynnig dull gweithredu tryloyw er budd pob parti sy'n rhan o achos tribiwnlys. Mae'n ceisio sicrhau bod pawb yn ymwybodol, o'r dechrau, sut mae'r tribiwnlys yn debygol o benderfynu ynglŷn â chosb.

6. Mae'r Canllaw'n ceisio cyflawni swyddogaeth ehangach a chefnogi pawb sydd â diddordeb mewn cynnal, hyrwyddo a gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'r Cod Ymddygiad. Mae'n ceisio ategu'r Canllaw statudol a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru[2], gan gadarnhau'r ymddygiad

[1] Mae Adran 75(10) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") yn rhoi pŵer i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru gyhoeddi canllaw yn nodi sut y dylai ei dribiwnlysoedd ddod i benderfyniad.
[2] Y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau tân ac achub, ac awdurdodau parciau cenedlaethol: Canllawiau (Awst 2016) a'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau cynghorau

a ddisgwylir gan aelodau lleol a phwysleisio pwysigrwydd canolog hyder y cyhoedd mewn democratiaeth leol. Dylai fod yn ddefnyddiol i aelodau unigol, Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau tân ac achub, ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

7. Bydd y Canllaw hwn yn dod i rym ar 1 Medi 2018. Mae'n ddogfen fyw a fydd yn cael ei diweddaru a'i diwygio yn ôl y galw, ar ôl ymgynghori.

## Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus

### Y Cod Ymddygiad

8. Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 fframwaith moesegol i hyrwyddo safonau ymddygiad uchel mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Trefniadau canolog y fframwaith yw'r Cod Ymddygiad. Rhaid i bob awdurdod lleol, cyngor cymuned, awdurdod tân ac achub ac awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru gael Cod Ymddygiad. Rhaid i bob aelod etholedig a phob aelod cyfetholedig (sydd â hawliau pleidleisio), lofnodi ymrwymiad wrth dderbyn ei swydd a fydd yn datgan y bydd yn cydymffurfio â Chod ei awdurdod drwy gydol ei gyfnod yn y swydd.

9. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cod Ymddygiad enghreifftiol[3] er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru a rhoi sicrwydd i aelodau a'r cyhoedd ynglŷn â'r safonau sylfaenol a ddisgwylir. Mae'r Cod enghreifftiol yn gyson â'r deg egwyddor greiddiol ar gyfer ymddygiad[4] a ragnodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2001. Mae'r egwyddorion hyn yn deillio o Egwyddorion Pwyllgor Nolan ar gyfer Bywyd Cyhoeddus[5]:

    i. Anhunanoldeb
    ii. Gonestrwydd
    iii. Uniondeb a Gwedduster
    iv. Dyletswydd i Gynnal y Gyfraith
    v. Stiwardiaeth
    vi. Gwrthrychedd wrth wneud Penderfyniadau
    vii. Cydraddoldeb a Pharch
    viii. Bod yn Agored
    ix. Atebolrwydd
    x. Rhoi Arweiniad

---

cymuned: Canllawiau (Awst 2016), a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dan Adran 68 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000

[3] Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2008, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016 www.legislation.gov.uk/wsi/2016/84/pdfs/wsi_20160084_mi.pdf a www.legislation.gov.uk/wsi/2016/85/pdfs/wsi_20160085_mi.pdf

[4] Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 OS 2001 Rhif 2276 (Cy.166) http://www.legislation.gov.uk/wsi/2001/2276/pdfs/wsi_20012276_mi.pdf

[5] Adroddiad Nolan "Standards of Conduct in Local Government in England, Scotland and Wales"

Rhaid i godau lleol gynnwys unrhyw ddarpariaethau gorfodol sydd yn y Cod enghreifftiol a gallent gynnwys unrhyw ddarpariaethau dewisol sydd ynddo. Ar hyn o bryd, mae holl ddarpariaethau'r Cod enghreifftiol yn orfodol.

### Yr hyn a ddisgwylir gan aelodau lleol

10. Rhaid i aelodau o gynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru gydymffurfio â Chod eu hawdurdod:

    - pa bryd bynnag y maent yn gweithredu neu'n bresennol yn un o gyfarfodydd eu hawdurdod, yn hawlio eu bod yn gweithredu neu'n rhoi'r argraff eu bod yn gweithredu yn rhinwedd eu swydd fel aelod wedi'i ethol neu ei benodi neu fel cynrychiolydd eu hawdurdod;
    - unrhyw bryd, os ydynt yn ymddwyn mewn ffordd y byddai'n rhesymol ystyried eu bod yn dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod, neu os ydynt yn defnyddio neu'n ceisio defnyddio eu swydd i gael mantais neu i osgoi anfantais i rywun neu os ydynt yn camddefnyddio adnoddau'r awdurdod.

11. Disgwylir i'r aelodau gymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant, a derbyn cyngor rheolaidd, yn ôl y galw, gan eu Swyddog Monitro a'u Pwyllgor Safonau lleol. Disgwylir hefyd i'r aelodau fod yn gyfarwydd â chanllaw statudol yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cod[6] a rhoi sylw iddo. Mae'n ymdrin â phob un o ofynion y Cod er mwyn helpu'r aelodau i ddeall eu dyletswyddau o safbwynt ymarferol. Mae'n cynnig cyngor ar yr egwyddorion moesegol sylfaenol y mae angen i lawer o aelodau eu hystyried yn rheolaidd – er enghraifft, datganiadau buddiant, cyfrinachedd ac a allai eu gweithredoedd gael eu gweld fel bwlio neu aflonyddu – yn ogystal â'r egwyddorion nad ydynt yn codi mor aml.

12. Yn y pen draw, rhaid i'r aelodau ddefnyddio eu barn broffesiynol i gymhwyso'r Cod a'r Egwyddorion i'w sefyllfa hwy eu hunain. Nid yw'r Cod yn caniatáu iddynt ddirprwyo cyfrifoldeb am eu hymddygiad.

### Honiadau o dorri'r Cod

13. Mae protocolau lleol anstatudol wedi'u sefydlu ar gyfer cwynion lefel isel gan un aelod am aelod arall nad ydynt yn arwain at dribiwnlys achos na thribiwnlys apêl. Gellir cyflwyno honiadau bod ymddygiad aelod yn torri'r Cod i'r Ombwdsmon, a fydd yn penderfynu a ddylid ymchwilio i gŵyn ai peidio. Os bydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio i gŵyn ac yn canfod bod tystiolaeth o dorri'r Cod, gall gyfeirio ei adroddiad at y Pwyllgor Safonau lleol perthnasol neu at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru. Gall yr Ombwdsmon hefyd gyfeirio adroddiadau o ymchwiliad sy'n cael ei gynnal at y Llywydd i gael eu hystyried gan dribiwnlys achos interim.

[6] Y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau tân ac achub, ac awdurdodau parciau cenedlaethol: Canllaw (Awst 2016) a'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau o gynghorau cymuned: Canllawiau (Awst 2016), a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dan Adran 68 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000

## Panel Dyfarnu Cymru

14. Rhan o'r broses o gyflwyno'r fframwaith moesegol oedd sefydlu Panel Dyfarnu Cymru[7] fel corff barnwrol, annibynnol â phwerau i ffurfio tribiwnlysoedd i ymdrin ag achosion honedig o dorri'r Cod. Mae gweithrediad y Panel yn cael ei reoleiddio gan Lywodraeth Cymru.

### *Tribiwnlysoedd achos*

15. Penodir tribiwnlysoedd achos gan Lywydd Panel Dyfarnu Cymru er mwyn ystyried adroddiad gan yr Ombwdsmon yn dilyn ymchwiliad i honiad bod aelod wedi camymddwyn. Mae tribiwnlysoedd achos yn gyfrifol am benderfynu a yw aelod lleol wedi torri Cod Ymddygiad ei awdurdod, ac os yw, maent yn gyfrifol am bennu cosb briodol (os oes angen un).

### *Tribiwnlysoedd apêl*

16. Penodir tribiwnlysoedd apêl gan y Llywydd i ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Safonau lleol. Mae tribiwnlysoedd apêl yn gyfrifol am adolygu penderfyniad bod aelod lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad a pheidio â chydymffurfio ag unrhyw gosb a roddwyd. Gallant gefnogi a chadarnhau unrhyw gosb a roddwyd neu gyfeirio'r mater yn ôl i'r Pwyllgor Safonau gan argymell cosb wahanol neu wyrdroi penderfyniad y Pwyllgor bod yr aelod wedi torri'r Cod. Ni all tribiwnlys apêl argymell cosb nad yw ar gael i'r Pwyllgor Safonau.

### *Tribiwnlysoedd achos interim*

17. Penodir tribiwnlysoedd achos interim gan y Llywydd i ystyried adroddiad, ac unrhyw argymhelliad i atal aelod o'i swydd, sy'n cael ei wneud gan yr Ombwdsmon yn ystod ymchwiliad sy'n cael ei gynnal i achos honedig o dorri'r Cod. Mae'r tribiwnlys yn gyfrifol am benderfynu a oes angen atal yr aelod neu'r aelod cyfetholedig dros dro, neu ei atal dros dro yn rhannol, o'r awdurdod neu o swyddogaeth o fewn yr awdurdod. Uchafswm hyd y cyfnod o atal dros dro neu atal dros dro yn rhannol yw 6 mis. Yn wahanol i dribiwnlysoedd achos a thribiwnlysoedd apêl, mae atal dros dro drwy dribiwnlys achos interim yn weithred niwtral, gan fod ymchwiliad yr Ombwdsmon yn parhau.

## Y system gosbau

18. Roedd gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus[8] ran allweddol yn y gwaith o ddatblygu'r fframwaith moesegol a nododd yr angen am fecanweithiau i orfodi a chosbi deiliaid swyddi cyhoeddus nad oeddent yn cydymffurfio â'r safonau a ddisgwylid ganddynt, er mwyn i'r fframwaith moesegol ennyn hygrededd y cyhoedd. Pwrpas y cosbau sydd ar gael i dribiwnlysoedd achos a thribiwnlysoedd apêl Panel Dyfarnu Cymru yw:

- darparu ymateb disgyblaethol i achos lle mae aelod unigol wedi torri'r Cod;
- gwneud cofnod cyhoeddus o'r camymddwyn a'r gosb briodol;

[7] Rhan III, Deddf Llywodraeth Leol 2000
[8] Cyfeiriad at yr adroddiad ar orfodi

- sicrhau nad yw'r unigolyn na neb arall yn camymddwyn yn y dyfodol;
- hybu diwylliant o gydymffurfio ar draws yr awdurdodau perthnasol;
- meithrin hyder y cyhoedd mewn democratiaeth leol.

19. Y cosbau sydd ar gael i dribiwnlys achos sydd wedi canfod bod rhywun wedi torri'r Cod yw[9]:

    a. peidio â chymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r achos o dorri'r Cod;
    b. atal yr aelod dros dro o'r awdurdod dan sylw, neu ei atal dros dro yn rhannol, am hyd at 12 mis;
    c. anghymhwyso'r aelod rhag bod yn aelod o'r awdurdod dan sylw, neu rhag dod yn aelod ohono yn y dyfodol, neu o unrhyw awdurdod perthnasol arall y mae'r Cod Ymddygiad yn berthnasol iddo am uchafswm o 5 mlynedd.

    Y cosbau sydd ar gael i dribiwnlys apêl sydd wedi canfod bod rhywun wedi torri'r Cod yw:

    d. ceryddu;
    e. atal yr aelod o'r awdurdod dan sylw dros dro, neu ei atal dros dro yn rhannol, am hyd at 6 mis.

20. Mae'r cosbau'n amrywio o ran math a hyd er mwyn rhoi'r hyblygrwydd i dribiwnlysoedd ddefnyddio cosbau sy'n amrywio'n fawr o ran eu heffaith a'u galluogi i ymateb yn gymesur i amgylchiadau arbennig achos unigol. Nid yw'r Canllaw hwn yn cynnig tariff pendant i'w ddefnyddio i gyfrifo hyd y cyfnod o atal dros dro neu anghymhwyso a ddylai fod yn berthnasol i achosion penodol o dorri'r Cod. Yn hytrach, mae'n cynnig egwyddorion cyffredinol i'w hystyried gan bob tribiwnlys gan barchu'r manylion sy'n gwneud pob achos unigol yn wahanol.

[9] Adran 79, Deddf Llywodraeth Leol 2000

### Dulliau gweithredu Tribiwnlysoedd – egwyddorion sylfaenol

21. Rhaid i dribiwnlysoedd gadw mewn cof bob amser bod pob achos yn wahanol a bod angen gwneud penderfyniad ar sail ffeithiau ac amgylchiadau penodol pob achos unigol. Ar ôl canfod bod rhywun wedi torri'r Cod Ymddygiad rhaid i dribiwnlysoedd benderfynu drostynt eu hunain beth yw'r gosb berthnasol gan ddibynnu ar natur yr achos a pha effaith y mae wedi'i gael, ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill. Rhaid iddynt hefyd sicrhau bod y cosbau'n ystyried yr egwyddorion sylfaenol a ganlyn er mwyn sicrhau bod eu penderfyniadau'n cefnogi uchelgeisiau cyffredinol y fframwaith moesegol, gan gyflawni diben y cosbau, a'u bod yn unol â rhwymedigaethau barnwrol ehangach y tribiwnlys.

### Tegwch

22. Dylai'r tribiwnlys ystyried a cheisio cael cydbwysedd priodol rhwng buddiannau amrywiol yr Ymatebydd/Apelydd, yr Achwynydd, partïon eraill sydd â budd mewn achos, yr Ombwdsmon, yr awdurdod, yr etholwyr a'r cyhoedd yn ehangach.

### Budd y cyhoedd

23. Tra'n ceisio sicrhau bod y gosb a roddir yn briodol, yn deg ac yn gymesur ag amgylchiadau'r achos, dylai'r tribiwnlys ystyried bod enw da democratiaeth leol a hyder y cyhoedd mewn democratiaeth leol yn bwysicach na buddiannau unrhyw unigolyn.

### Cymesuredd

24. Bydd tribiwnlysoedd yn ystyried yr arferion da a nodwyd yng Nghanllawiau a Choflyfr Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon[10] er mwyn eu cynorthwyo â'u hymdeimlad o gymesuredd wrth benderfynu ar gosb sy'n briodol i faint a/neu natur y tramgwydd.

### Cysondeb

25. Bydd y tribiwnlysoedd yn ceisio cael cysondeb rhwng eu cosbau er mwyn cynnal hygrededd y fframwaith moesegol. Byddant yn ystyried yr arferion da a nodwyd gan yr Ombwdsmon (para.24) yn ogystal â'r Canllaw hwn a'u penderfyniadau blaenorol eu hunain. Os oes gan banel tribiwnlys reswm dros wyro oddi wrth y Canllaw, dylai egluro'n glir pam y mae wedi gwneud hynny.

### Cydraddoldeb a didueddrwydd

26. Mae trin pawb yn deg yn un o egwyddorion sylfaenol Panel Dyfarnu Cymru ac mae'n rhan o'r llw barnwrol sy'n cael ei dyngu gan aelodau unigol. Rhaid i dribiwnlysoedd sicrhau bod eu prosesau a'u harferion yn diogelu eu capasiti i wneud penderfyniadau gwrthrychol, annibynnol a diduedd, heb unrhyw ragfarn na ffafriaeth, er mwyn cadarnhau eu cyfrifoldebau barnwrol.

[10] http://www.ombudsman-wales.org.uk/en/publications/The-Code-of-Conduct-Casebook.aspx

## Hawliau Dynol (Erthyglau 6 a 10)

27. Rhaid i dribiwnlysoedd sicrhau bod eu prosesau a'u harferion yn parchu hawliau dynol. Mae'r Canllaw hwn yn ceisio cefnogi'r egwyddorion hynny. Yn fwyaf arbennig, rhaid i dribiwnlysoedd sicrhau eu bod yn ystyried perthnasedd Erthyglau 6 a 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn eu trafodaethau. Mae'r erthyglau hyn yn cynnwys yr hawl i wrandawiad teg a rhyddid mynegiant.

28. Mae Erthygl 10 yn ddarpariaeth allweddol wrth ystyried achosion posibl o dorri'r Cod:

    *"10(1) Mae gan bawb yr hawl i ryddid mynegiant. Rhaid i'r hawl hon gynnwys rhyddid i arddel barnau ac i gael a rhannu gwybodaeth a syniadau heb ymyrraeth gan awdurdodau cyhoeddus a heb ystyried ffiniau …*
    *10(2) Gall arfer y rhyddid hwn, gan fod dyletswyddau a chyfrifoldebau'n cyd-fynd ag ef, fod yn amodol ar ffurfioldebau, amodau, cyfyngiadau neu gosbau a ragnodir gan y gyfraith ac sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd, er lles diogelwch cenedlaethol, uniondeb tiriogaethol neu ddiogelwch y cyhoedd, i atal troseddu ac anhrefn, i ddiogelu iechyd neu foesau, i ddiogelu enw da neu hawliau pobl eraill, i atal datgelu gwybodaeth a gafwyd yn gyfrinachol, neu i gynnal awdurdod a didueddrwydd y farnwriaeth."*

29. Mae mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer rhyddid mynegiant mewn dadleuon gwleidyddol, gan gynnwys dadleuon mewn llywodraeth leol. Mae Erthygl 10(2) yn caniatáu iaith a dadl ar faterion o ddiddordeb i'r cyhoedd a allai, mewn cyd-destun anwleidyddol, gael ei hystyried yn amhriodol neu'n annerbyniol. Nid yw'r diogelwch hwn yn cynnwys sylwadau personol di-alw-amdanynt neu dramgwyddus, nac '*iaith sy'n ennyn casineb'* drwy enllibio lliw, hil, anabledd, cenedligrwydd (gan gynnwys dinasyddiaeth), gwreiddiau ethnig neu genedlaethol, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol.

30. Wrth ystyried Erthygl 10, dylai tribiwnlysoedd ddefnyddio'r dull tri cham a sefydlwyd gan Meistr Ustus Wilkie[11] yn achos *Sanders v Kingston (Rhif 1)* ac sy'n berthnasol i benderfyniadau yn ymwneud â thorri amodau a chosbau, fel a ganlyn:

    i. A all y Panel fel mater o ffaith ddod i'r casgliad bod ymddygiad yr Ymatebydd yn achos perthnasol o dorri'r Cod Ymddygiad?
    ii. Os yw, a oedd yr achos o ganfod tor-amod a rhoi cosb ar yr olwg gyntaf yn achos o weithredu'n groes i Erthygl 10?
    iii. Os oedd, a yw'r cyfyngiad dan sylw yn un sy'n cael ei gyfiawnhau drwy'r gofyniad yn Erthygl 10(2)?

[11] Wilkie J yn achos Sanders v Kingston Rhif (1) [2005] EWHC 1145

## Tribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Apêl – pennu cosb

31. Bydd tribiwnlys yn penderfynu a yw cosb yn briodol ai peidio ar ôl ystyried ffeithiau achos a chanfod bod unigolyn wedi torri'r Cod Ymddygiad. Wrth bennu cosb briodol, dylai dull gweithredu'r tribiwnlys fod yn ddigon eang i'w alluogi i ystyried buddiannau amrywiol y rhai sy'n ymwneud â'r achos, unrhyw amgylchiadau penodol sydd gan yr ymatebydd/apelydd unigol, diben arfaethedig y cosbau sydd ar gael (yn fwyaf arbennig, y budd i'r cyhoedd yn ehangach) a chyfrifoldebau barnwrol ehangach y tribiwnlys.

32. Bydd tribiwnlysoedd achos yn penderfynu ynglŷn â'r gosb briodol i'w rhoi, os oes angen rhoi cosb, a hyd unrhyw gosb o'r fath; bydd tribiwnlysoedd apêl yn ystyried priodoldeb y gosb a roddir gan y Pwyllgor Safonau.

## Y broses bum cam

33. Bydd tribiwnlys achos a thribiwnlys apêl yn dilyn proses bum cam wrth bennu cosb:

33.1 asesu difrifoldeb y tor-amod ac unrhyw ganlyniadau i unigolion a/neu'r cyngor (para.34 - 38)

33.2 nodi'r math cyffredinol o gosb y mae'r Tribiwnlys yn credu ei bod yn fwyaf tebygol o fod yn briodol o ystyried y tor-amod; (para.39)

33.3 ystyried unrhyw amgylchiadau lliniarol neu waethygol perthnasol a sut y gallai'r rhain effeithio ar lefel y gosb sy'n cael ei hystyried; (para.40 i 42)

33.4 ystyried unrhyw addasiad pellach sydd ei angen er mwyn sicrhau bod y gosb yn cael effaith briodol, o ran cyflawni dibenion y gosb; (para.43)

33.5 cadarnhau'r penderfyniad ynglŷn â chosb a chynnwys eglurhad, gyda'r penderfyniad ysgrifenedig, o resymau'r tribiwnlys dros benderfynu ynglŷn â'r gosb a ddewiswyd er mwyn galluogi'r partïon a'r cyhoedd i ddeall ei gasgliadau. (para.53)

## Asesu difrifoldeb y tor-amod

34. Bydd difrifoldeb cymharol y tor-amod yn cael effaith uniongyrchol ar benderfyniad y tribiwnlys ynglŷn â'r angen am gosb ac, os hynny, pa un ai atal dros dro, neu atal dros dro yn rhannol (am hyd at 12 mis), neu anghymhwyso (am hyd at 5 mlynedd) sy'n debygol o fod yn fwyaf priodol. Er hyn, mae'n bwysig cadw mewn cof mai'r unig beth y gall tribiwnlys apêl ei wneud yw argymell atal dros dro (yn rhannol neu'n llawn) am hyd at 6 mis, a bod y cyfyngiadau ar ei bwerau'n golygu na all argymell anghymhwyso.

35. Bydd y tribiwnlys yn asesu difrifoldeb gan gyfeirio'n benodol at:

- natur a graddau'r tor-amod, a nifer yr achosion o dorri'r Cod;
- beiusrwydd yr aelod, ei fwriadau wrth dorri'r Cod, ac unrhyw achosion blaenorol o dorri'r Cod;

- gwir ganlyniadau a chanlyniadau posibl y tor-amod – i unrhyw unigolyn/unigolion, y cyhoedd yn ehangach a/neu'r cyngor yn ei gyfanrwydd;
- i ba raddau y mae gweithredoedd yr aelod wedi dwyn anfri ar ei swydd neu'r awdurdod perthnasol, neu faint o botensial sydd yna iddynt wneud hynny.

36. Dyma enghreifftiau o'r ffordd y gallai tribiwnlysoedd gymharu difrifoldeb:

- mae tor-amod sy'n cynnwys twyll bwriadol er mwyn cael budd personol neu er mwyn gwahaniaethu yn debygol o gael ei ystyried yn fwy difrifol na thor-amod sy'n cynnwys defnydd diofal o gyfeiriad ebost cyngor ar broffil personol yn y cyfryngau cymdeithasol;
- bydd tor-amod sy'n cynnwys aflonyddu systematig, neu fwlio aelod iau, yn debygol o gael ei ystyried yn fwy difrifol nag achosion o iaith amharchus yn ystod dadl yn y cyngor;
- mae torri cyfrinachedd sy'n arwain at ddatgelu cyfeiriad plentyn sy'n derbyn gofal yn debygol o gael ei ystyried yn fwy difrifol na datgelu cyngor cyfrinachol swyddog cynllunio;
- mae tor-amod sy'n arwain at effaith negyddol sylweddol ar enw da'r swydd neu'r awdurdod yn debygol o gael ei ystyried yn fwy difrifol nag ebost wedi'i eirio'n amhriodol at aelod o'r cyhoedd.

37. Mae achosion o dorri'r Cod sy'n cynnwys llwyr anwybyddu cyngor awdurdodol penodol a roddir ynglŷn â dull o ymddwyn a/neu'r Cod (yn enwedig gan swyddog monitro'r awdurdod perthnasol), camddefnyddio gwybodaeth gyfrinachol, freintiedig neu sensitif yn fwriadol, er budd personol neu er budd cyfaill personol agos, camymddwyn rhywiol, ymddygiad troseddol, gwahaniaethol, trachwantus, a bwlio a/neu aflonyddu i gyd yn debygol o gael eu hystyried yn achosion difrifol iawn o dorri'r Cod.

38. Bydd aelod sydd wedi cael cyfnod o garchar am dri mis neu ragor heb yr opsiwn o dalu dirwy yn ystod y pum mlynedd cyn iddo gael ei ethol neu ar ôl iddo gael ei ethol yn cael ei anghymhwyso'n awtomatig[12].

## Dewis y gosb bosibl

39. Ar ôl asesu difrifoldeb cymharol yr achos o dorri'r Cod, bydd y tribiwnlys yn ystyried pa un o'r camau gweithredu sydd ar gael iddo yw'r un mwyaf priodol[13]. Yn unol ag egwyddorion tegwch a chymesuredd, dylai'r tribiwnlys ddechrau ystyried y gosb bosibl drwy edrych ar y gosb sy'n cael yr effaith leiaf.

### *Peidio â chymryd camau pellach*

39.1 Er bod aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad, gallai tribiwnlys benderfynu nad oes angen cosb. Gallai tribiwnlys benderfynu peidio â chymryd camau pellach mewn amgylchiadau fel y rhai osod:

---

[12] Adran 80(1)(d), Deddf Llywodraeth Leol 1972
[13] Adran 79, Deddf Llywodraeth Leol 2000

- methiant i ddilyn y Cod oherwydd esgeulustod;
- un digwyddiad yn unig, lle mae'r posibilrwydd o niwed o ganlyniad iddo yn fach iawn;
- yr unigolyn yn derbyn bod y posibilrwydd o beidio â chydymffurfio â'r Cod yn y dyfodol yn annhebygol, ac nad oes rhesymau ehangach dros gosb i sicrhau nad yw hynny'n digwydd;
- amgylchiadau personol penodol, gan gynnwys ymddiswyddiad neu waeledd, sy'n golygu bod cosb yn ddiangen a/neu yn anghymesur.

39.2 Dylai tribiwnlys sy'n canfod bod rhywun wedi torri'r Cod, ond sy'n penderfynu nad oes angen rhoi cosb, ystyried a oes angen rhoi rhybudd i'r aelod ynglŷn â'i ymddygiad a/neu ofyn am sicrwydd ynglŷn â'i ymddygiad yn y dyfodol. Mae hon yn ffordd effeithiol o wneud cofnod o ymddygiad yr aelod, sy'n cael ei adlewyrchu ym mhenderfyniad ysgrifenedig y tribiwnlys, fel bod modd ystyried y rhybudd a/neu'r sicrwydd pe canfyddid yn y dyfodol bod yr un aelod wedi torri'r Cod eto. Gellir dwyn methiant i gydymffurfio ag unrhyw sicrwydd a roddwyd i'r tribiwnlys i sylw'r tribiwnlys mewn gwrandawiadau yn y dyfodol.

### *Atal dros dro am hyd at 12 mis*

39.3 Gallai tribiwnlys achos atal yr aelod o'r awdurdod(au) y mae wedi torri ei God /eu Cod dros dro am hyd at 12 mis.

39.4 Mae atal dros dro yn briodol pan fydd difrifoldeb y tor-amod yn golygu bod ymateb disgyblaethol â therfyn amser yn briodol er mwyn atal gweithredu o'r fath yn y dyfodol, tynnu'r aelod o'r awdurdod/rôl o fewn yr awdurdod dros dro, diogelu'r safonau a bennwyd gan y Cod a sicrhau'r cyhoedd bod y safonau'n cael eu cynnal.

39.5 Nid yw atal dros dro am lai na mis yn debygol o gyflawni amcanion y system gosbau a gallai danseilio amcanion cyffredinol y system. Atgoffir tribiwnlysoedd hefyd mai'r gosb fwyaf sydd ar gael i Bwyllgorau Safonau lleol yw atal dros dro am 6 mis. Dylent gadw hyn mewn cof wrth ystyried achos sydd wedi'i gyfeirio gan yr Ombwdsmon at y Panel Dyfarnu, yn hytrach na'r Pwyllgor Safonau lleol, ac wrth ystyried apêl yn erbyn cosb gan Bwyllgor Safonau lleol. Mae'n bosibl i dribiwnlys apêl argymell cynyddu'r gosb a roddwyd yn wreiddiol gan y Pwyllgor Safonau.

39.6 Gallai tribiwnlys benderfynu bod atal dros dro yn briodol mewn amgylchiadau fel y rhai isod:

- pan fydd gweithred yr aelod wedi dwyn anfri ar swydd neu awdurdod yr aelod ond na chanfuwyd ei fod wedi gweithredu'n groes i unrhyw baragraff arall yn y Cod (er hyn, bydd y gosb fwyaf priodol yn dibynnu ar ffeithiau penodol pob achos);

- pan fydd y tor-amod yn galw am ymateb disgyblaethol ond, o ystyried amgylchiadau'r achos, ei bod yn annhebygol iawn y bydd achos arall o dorri'r Cod;
- pan fydd yr aelod wedi cydnabod ei fod ar fai, dangos ei fod yn deall beth oedd o'i le â'i ymddygiad, ac ymddiheuro i'r rhai gafodd eu heffeithio.

### *Atal Dros Dro yn Rhannol am hyd at 12 mis*

39.7 Gall y tribiwnlys atal aelod dros dro yn rhannol, hynny yw, bydd yr aelod yn cael ei atal rhag cyflawni swyddogaeth neu rôl benodol (er enghraifft bod yn aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor penodol neu ddal swydd benodol) am hyd at 12 mis.

39.8 Mae atal dros dro yn rhannol yn briodol os yw'r tor-amod yn ddigon difrifol i gyfiawnhau atal dros dro (gweler uchod) ond bod amgylchiadau'r achos yn golygu bod yr aelod yn cael dal i gyflawni ei swydd gyhoeddus ac eithrio'r rôl/swyddogaeth/gweithgaredd sy'n cael ei gyfyngu'n benodol gan yr ataliad dros dro.

39.9 Mewn achos o atal dros dro yn rhannol, bydd angen i'r tribiwnlys benderfynu o ba rôl/swyddogaeth/gweithgaredd y bydd yr aelod yn cael ei atal, ac os yw'r unigolyn yn aelod o fwy nag un awdurdod, pa effaith y bydd atal dros dro yn rhannol yn ei gael ym mhob awdurdod perthnasol.

39.10 Gallai atal dros dro yn rhannol fod yn briodol mewn amgylchiadau fel y rhai isod:

- mae'r aelod yn gallu cydymffurfio â'r Cod at ei gilydd, ond mae'n cael anhawster i ddeall neu dderbyn y ffordd y mae'r Cod yn cyfyngu ar ei ymddygiad mewn agwedd benodol ar weithgaredd y cyngor/awdurdod;
- mae'r camymddwyn yn uniongyrchol berthnasol i swyddogaeth benodol neu faes penodol y mae'r aelod yn gyfrifol amdano ac yn anghyson â'r swyddogaeth neu'r maes hwnnw;
- dylai'r aelod gael ei symud dros dro neu ei atal rhag cyflawni swyddogaethau gweithredol i'r corff y mae'r Cod yn berthnasol iddo.

### *Anghymhwyso am uchafswm o 5 mlynedd*

39.11 Gall tribiwnlys achos anghymhwyso'r aelod rhag bod yn aelod, neu ddod yn aelod yn y dyfodol, o'r awdurdod dan sylw neu unrhyw awdurdod perthnasol arall y mae'r Cod Ymddygiad yn berthnasol iddo am uchafswm o 5 mlynedd.

39.12 Anghymhwyso yw'r gosb fwyaf difrifol sydd ar gael i dribiwnlys. Mae'n debygol o fod yn briodol os yw'r tor-amod mor ddifrifol fel bod ymateb disgyblaethol sylweddol yn briodol er mwyn sicrhau nad yw'r un peth yn digwydd eto, dangos yn glir bod ymddygiad o'r fath mewn swydd gyhoeddus yn annerbyniol, pwysleisio pwysigrwydd y Cod a chadw hyder

y cyhoedd mewn democratiaeth leol. Nid yw anghymhwyso am lai na 12 mis yn debygol o gyflawni llawer (ac eithrio mewn amgylchiadau lle mae cyfnod yr aelod yn y swydd yn mynd i ddod i ben yn ystod y cyfnod hwnnw neu os nad yw'n aelod bellach).

39.13 Gallai tribiwnlys benderfynu bod anghymhwyso'n briodol mewn amgylchiadau fel y rhai isod:

- ceisio budd personol yn fwriadol (iddo ef/iddi hi ei hun, aelod o'r teulu neu gyfaill personol) drwy gamddefnyddio aelodaeth o'r awdurdod a/neu adnoddau'r awdurdod;
- ceisio rhoi rhywun arall dan anfantais yn fwriadol drwy gamddefnyddio aelodaeth o'r awdurdod a/neu adnoddau'r awdurdod;
- diystyru neu beidio â chydymffurfio â darpariaethau'r Cod yn fwriadol a dal i fynnu bod ganddo hawl i wneud hynny;
- peidio â chydymffurfio â darpariaethau'r Cod dro ar ôl tro a dangos tebygolrwydd y bydd patrwm yr ymddygiad yn parhau;
- ceisio budd gwleidyddol yn fwriadol drwy gamddefnyddio adnoddau neu bŵer cyhoeddus yn yr awdurdod;
- ail achos o dor-amod, neu achos dilynol o dor-amod, er gwaethaf rhybudd a/neu er ei fod wedi rhoi sicrwydd ynglŷn â'i ymddygiad yn y dyfodol mewn achos blaenorol gerbron un o dribiwnlysoedd Panel Dyfarnu Cymru;
- ymddygiad sy'n codi amheuaeth ynghylch addasrwydd yr Ymatebydd ar gyfer swydd gyhoeddus;
- dwyn anfri difrifol ar yr awdurdod perthnasol.

### Amgylchiadau lliniarol a gwaethygol

40. Bydd y tribiwnlys yn mynd ymlaen i ystyried sut y gallai amgylchiadau penodol yr aelod liniaru a/neu waethygu lefel y gosb sy'n cael ei hystyried. Cynlluniwyd y cam hwn er mwyn ystyried unrhyw amgylchiadau personol sy'n effeithio ar ymddygiad yr aelod, gan gynnwys diffyg profiad, galluedd, dealltwriaeth, cyfrifoldeb (am y tor-amod), edifeirwch, gwneud iawn ac unrhyw ganfyddiadau blaenorol. Mae'r broses hon yn debygol o gael effaith sylweddol ar hyd y gosb, gan gynyddu neu leihau'r cyfnod yn unol â'r ffactorau lliniarol neu waethygol. Gallai ffactorau o'r fath fod yn ddigon ambell waith i berswadio tribiwnlys y gallai atal dros dro (os oes angen) fod yn fwy priodol nag anghymhwyso, neu fel arall.

41. Rydym yn annog tribiwnlysoedd i ddilyn y ffyrdd isod o weithio. Er hynny, rydym yn eu hatgoffa mai enghreifftiau yn unig sydd yma. Os yw ffactor lliniarol/gwaethygol yn ymwneud yn uniongyrchol â natur neu ddifrifoldeb y tor-amod, a bod y tribiwnlys eisoes wedi ystyried y ffactor hwnnw wrth ddewis y gosb briodol, dylid ystyried yn ofalus i ba raddau y dylid cynnwys y ffactor hwnnw wrth liniaru/gwaethygu. Er enghraifft:

- os atal dros dro yw’r gosb sy’n cael ei hystyried, oherwydd bod yr ymddygiad yn cael ei ystyried yn ddigwyddiad ‘untro’, ni ddylai’r ffactor hwn gael ei ystyried fel ffactor lliniarol hefyd oni bai fod natur ‘untro’ y tor-amod mor eithriadol fel na ddylai gael effaith uniongyrchol ar hyd yr ataliad dros dro;
- os yw’r tor-amod yn cael ei ystyried yn un difrifol oherwydd ei fod yn ‘dwyn anfri ar yr awdurdod’, ni ddylai’r ffactor hwn gael ei ystyried fel ffactor gwaethygol oni bai fod yr anfri mor eithriadol nes ei fod yn cael effaith uniongyrchol ar hyd yr anghymhwysiad.

42. Dylai tribiwnlysoedd hefyd sicrhau eu bod yn parchu hawl gyfreithlon aelod i apelio ac i wahaniaethu datganiadau neu honiadau a wnaethpwyd wrth ymarfer yr hawl honno oddi wrth y gweithredoedd hynny y gellid eu hystyried fel ffactorau gwaethygol a gynlluniwyd er mwyn rhwystro prosesau’r Ombwdsmon neu’r Panel Dyfarnu.

### *Amgylchiadau lliniarol*

i. tystiolaeth wedi’i chadarnhau fod y camymddwyn wedi’i effeithio gan amgylchiadau personol, gan gynnwys iechyd a straen;

ii. cyfnod byr o wasanaeth neu ddiffyg profiad mewn rôl benodol;

iii. hanes blaenorol o wasanaeth da (yn enwedig os yw dros gyfnod maith);

iv. unwaith yn unig y digwyddodd y camymddwyn;

v. er bod yr aelod wedi torri’r Cod, nid oedd yn bwriadu unrhyw falais;

vi. digwyddodd y camymddwyn oherwydd bod yr aelod wedi cael ei bryfocio neu ei ddylanwadu gan rywun arall;

vii. roedd y tor-amod yn deillio o gred ddidwyll, ond anghywir er hynny, nad oedd y camymddwyn dan sylw’n gyfystyr â methiant i ddilyn y Cod, yn enwedig ar ôl derbyn cyngor priodol;

viii. roedd y camymddwyn, er ei fod yn torri’r Cod, yn arwain at rywfaint o fanteision a oedd o fudd i’r cyhoedd;

ix. mynegiant gwleidyddol o farn ddidwyll, er ei bod wedi cael ei mynegi’n ormodol, neu ddadl wleidyddol (gweler paragraffau 27-30 uchod a Ffactor gwaethygol xii below);

x. yr aelod ei hun yn rhoi gwybod am y tor-amod;

xi. cydnabod ac edifarhau’r camymddwyn ac unrhyw ganlyniadau;

xii. ymddiheuriad, yn enwedig ymddiheuriad cynnar, i unrhyw un a gafodd ei effeithio;

xiii. cydweithredu mewn ymdrechion i gywiro effaith y methiant;

xiv. cydweithredu â’r swyddog ymchwilio a’r pwyllgor safonau/PDC;

xv. derbyn bod angen newid ymddygiad yn y dyfodol;

xvi. parodrwydd i fynychu hyfforddiant pellach;

xvii. ymrwymiad i ofyn am gyngor priodol ynghylch y Cod yn y dyfodol;

xviii. yn cydymffurfio â'r Cod ers y digwyddiadau a arweiniodd at y dyfarniad.

***Ffactorau gwaethygol***

i. profiad maith, safle uchel a/neu swydd gyfrifol;

ii. yr aelod yn ceisio beio pobl eraill yn annheg am ei weithredoedd ei hun;

iii. ymddygiad bwriadol er mwyn cael budd personol, neu a arweiniodd at fudd personol (iddo ef/iddi hi ei hun, aelod o'r teulu neu gyfaill personol agos) neu anfantais i rywun arall;

iv. mynd ati'n fwriadol i gamddefnyddio swydd gyhoeddus a/neu adnoddau cyhoeddus er budd personol (iddo ef/iddi hi ei hun, aelod o'r teulu neu gyfaill personol agos) neu er budd gwleidyddol;

v. camddefnyddio neu fanteisio ar safle o ymddiriedaeth;

vi. torri'r Cod dro ar ôl tro a/neu nifer o achosion o dorri'r Cod, gan gynnwys parhau â phatrwm ymddygiad sy'n golygu bod yr unigolyn yn peidio â chydymffurfio â'r Cod dro ar ôl tro;

vii. anonestrwydd a/neu dwyll, yn enwedig yn ystod ymchwiliad yr Ombwdsmon;

viii. diffyg dealltwriaeth neu wrthod derbyn y camymddwyn ac unrhyw ganlyniadau;

ix. gwrthod a/neu fethu â mynychu hyfforddiant sydd ar gael ar y Cod;

x. ymddygiad bwriadol neu ddiofal heb boeni llawer, os o gwbl, am y Cod;

xi. anwybyddu cyngor, hyfforddiant a/neu rybuddion ynglŷn ag ymddygiad yn fwriadol neu'n ddiofal;

xii. mynegi barnau nad ydynt yn haeddu cael eu parchu mewn cymdeithas ddemocrataidd, sy'n anghydnaws ag urddas dynol ac sy'n gwrthdaro â hawliau sylfaenol pobl eraill (gweler paragraffau 27 – 30 uchod);

xiii. rhwystro a/neu beidio â chydymffurfio â phrosesau unrhyw ymchwiliad gan yr Ombwdsmon, Pwyllgor Safonau a/neu Banel Dyfarnu Cymru;

xiv. gwrthod derbyn y ffeithiau er gwaethaf tystiolaeth glir i'r gwrthwyneb;

xv. gweithred/gweithredoedd sydd wedi dwyn anfri ar yr awdurdod perthnasol a/neu'r gwasanaeth cyhoeddus;

xvi. peidio â rhoi sylw i gyngor a/neu rybuddion blaenorol a chadw at unrhyw sicrwydd blaenorol a roddwyd ynglŷn ag ymddygiad sy'n berthnasol i'r Cod.

xvii. canfyddiadau blaenorol o beidio â dilyn darpariaethau'r Cod.

xviii. parhau i wadu'r ffeithiau, er gwaethaf tystiolaeth glir i'r gwrthwyneb.

**Cyflawni diben y drefn gosbau**

43. Efallai y bydd angen i'r tribiwnlys ystyried rhagor o addasiadau i'r gosb a ddewiswyd neu i hyd cosb er mwyn sicrhau effaith ataliol briodol, i'r unigolyn a/neu aelodaeth ehangach y cyngor, neu er mwyn cadw hyder y cyhoedd. Bydd angen i dribiwnlysoedd hefyd ystyried ffactorau allanol a allai gynyddu neu leihau effaith y gosb a ddewiswyd.

***Budd y cyhoedd***

44. Prif ddiben y drefn gosbau yw cynnal safonau ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus a chadw hyder mewn democratiaeth leol. Dylai tribiwnlysoedd adolygu'r gosb a ddewiswyd ganddynt drwy ei chymharu â phenderfyniadau blaenorol Panel Dyfarnu Cymru ac ystyried gwerth y gosb a ddewiswyd o ran effaith ataliol ar gynghorwyr yn gyffredinol a'i heffaith o ran hygrededd ymhlith y cyhoedd yn ehangach. Os yw'r ffeithiau a arweiniodd at dorri'r cod yn golygu bod yr aelod yn gwbl anaddas ar gyfer swydd gyhoeddus, yna mae'n debyg mai anghymhwyso, yn hytrach nag atal dros dro, fydd y gosb fwyaf priodol.

***Cymhwyster ar gyfer swydd gyhoeddus mewn awdurdodau perthnasol eraill***

45. Bydd aelodaeth bresennol Ymatebydd o bob awdurdod y mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn berthnasol iddo yn cael ei hanghymhwyso'n awtomatig, pa un a yw wedi torri Codau'r awdurdodau eraill ai peidio. Bydd anghymhwysiad hefyd yn atal yr Ymatebydd rhag derbyn swydd gyhoeddus, drwy gael ei ethol neu ei gyfethol, yn unrhyw awdurdod arall y mae'r Ddeddf yn berthnasol iddo nes bydd yr anghymhwysiad wedi dod i ben.

46. Bydd atal dros dro yn rhwystro'r aelod rhag cymryd rhan fel aelod o'r awdurdod y canfuwyd ei fod wedi torri ei God, ond nid o reidrwydd fel aelod o unrhyw awdurdodau eraill y mae'r Ymatebydd/Apelydd yn aelod ohonynt. Os yw ffeithiau achos yn codi amheuaeth ynglŷn ag addasrwydd cyffredinol yr aelod ar gyfer swydd gyhoeddus, gallai anghymhwyso fod yn fwy addas nag atal dros dro.

***Cyn aelodau***

47. Mewn amgylchiadau lle byddai'r tribiwnlys fel arfer yn rhoi cosb ond nad yw'r Ymatebydd yn aelod mwyach, gallai anghymhwysiad byr fod yn briodol (dim ond mewn tribiwnlysoedd achos y gall hyn ddigwydd). Bydd hyn yn sicrhau nad yw'r Ymatebydd yn gallu dychwelyd i swydd gyhoeddus, er enghraifft drwy gael ei gyfethol, cyn diwedd y cyfnod o atal dros dro a fyddai wedi cael ei ddefnyddio pe na bai wedi ymddiswyddo neu heb gael ei ailethol. Mae cerydd yn dal yn opsiwn ar gyfer tribiwnlysoedd apêl.

### *Effaith ariannol*

48. Dylai tribiwnlysoedd ystyried effaith ariannol cosb ar aelodau: os yw aelod wedi cael ei atal dros dro neu ei anghymhwyso ni fydd yn derbyn ei gyflog a'i lwfansau. Mae'r effaith ariannol yn amrywio o ad-daliad treuliau blynyddol ar gyfer cynghorwyr cymuned i gyflog sylfaenol a threuliau ar gyfer cynghorwyr sir i'r cyflogau uwch a delir i arweinwyr cynghorau mawr[14].

### *Yr effaith ar yr etholwyr*

49. Mae'r Uchel Lys wedi cydnabod bod y Senedd wedi rhoi pŵer penodol i dribiwnlysoedd achos sy'n eu galluogi i ymyrryd ag ewyllys yr etholwyr ac y gallai 'ymyriad' o'r fath fod yn angenrheidiol er mwyn cadw ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd leol. Dylai tribiwnlysoedd fod yn hyderus o'u hawl i anghymhwyso aelodau y mae eu hymddygiad wedi dangos nad ydynt yn gymwys i gyflawni'r cyfrifoldebau a roddwyd iddynt gan yr etholwyr.

50. Pan fydd aelod yn cael ei atal dros dro mae'r etholwyr yn cael eu hamddifadu dros dro o gynrychiolaeth leol, tra mae anghymhwyso yn cychwyn proses, naill ai is-etholiad neu gyfetholiad, i benodi rhywun yn lle'r aelod sydd wedi'i anghymhwyso.

### *Amseriad etholiadau lleol*

51. Yn gyffredinol, dylai hyd anghymhwysiad fod yn gysylltiedig â natur y tor-amod ac amgylchiadau'r achos, a dylai gael ei weithredu hyd yn oed os bydd etholiadau lleol yn cael eu cynnal yn fuan. Ar adegau eithriadol gallai hyd yr anghymhwysiad gael effaith anghymesur iawn ar yr aelod. Er enghraifft: byddai amghymhwysiad o 18 mis, a fyddai'n cael ei orfodi yn Rhagfyr 2020, yn atal aelod rhag sefyll mewn etholiad llywodraeth leol tan fis Mai 2027, gan y byddai cyfnod yr anghymhwysiad yn para am fis arall ar ôl etholiadau Mai 2022. Dylai tribiwnlysoedd fod yn barod i wrando ar gyflwyniadau ynglŷn â pham y dylid amrywio hyd anghymhwysiad, gan gadw egwyddor gyffredinol budd y cyhoedd mewn cof.

### *Anghymwysiadau awtomatig*

52. Yn unol â'r gyfraith bydd unrhyw aelod sy'n cael dedfryd o garchar am dri mis neu ragor (pa un a yw'n ddedfryd ohiriedig ai peidio) yn cael ei anghymhwyso'n awtomatig am bum mlynedd. Nid yw'r ffaith fod Llys wedi rhoi cosb lai yn golygu bod anghymhwysiad am bum mlynedd yn amhriodol. Os yw'r tribiwnlys achos o'r farn nad yw'r aelod dan sylw'n addas i ddal swydd gyhoeddus ac nad yw'n debygol o fod yn addas yn ystod y pum mlynedd nesaf, yna gallai anghymhwysiad o'r fath fod yn briodol.

### *Cadarnhau'r gosb*

53. Dylai tribiwnlysoedd gadarnhau eu penderfyniad terfynol ynglŷn â chosb, gan hysbysu'r gwrandawiad a'i gofnodi yn hysbysiad y penderfyniad. Bydd

[14] https://llyw.cymru/irpwsub/home/?skip=1&lang=cy

tribiwnlysoedd yn gwneud yn siŵr bod y rhesymau dros eu penderfyniad, gan gynnwys unrhyw ffactorau lliniarol a gwaethygol sylweddol, yn cael eu cynnwys yn y cofnod ysgrifenedig llawn o'r trafodion er mwyn sicrhau bod y partïon a'r cyhoedd yn gallu deall ei gasgliadau ynglŷn â'r gosb.

### Argymhellion

54. Mae gan dribiwnlysoedd achos hefyd bŵer i wneud argymhellion[15] i'r awdurdod perthnasol y mae wedi ystyried ei God ynglŷn ag unrhyw faterion yn ymwneud ag:

- ymarfer swyddogaethau'r awdurdod;
- Cod Ymddygiad yr awdurdod;
- Pwyllgor Safonau'r awdurdod.

55. Mae gan yr awdurdod y gwneir yr argymhellion iddo ddyletswydd i'w hystyried cyn pen tri mis, yna paratoi adroddiad i'r Ombwdsmon yn amlinellu'r camau gweithredu y mae ef, neu ei Bwyllgor Safonau, wedi eu cymryd neu am eu cymryd. Os nad yw'r Ombwdsmon yn fodlon â'r camau a gymerwyd neu y bwriedir eu cymryd, mae ganddo bŵer i ofyn i'r awdurdod gyhoeddi datganiad yn rhoi manylion am yr argymhellion a wnaethpwyd gan y tribiwnlys achos a rhesymau'r awdurdod dros beidio â'u gweithredu'n llawn. O ganlyniad, cynghorir tribiwnlysoedd i ystyried eu defnydd o'r pŵer hwn yn ofalus.

### Tribiwnlysoedd achos interim – pennu cosb

56. Bydd tribiwnlysoedd achos interim yn penderfynu, ar ôl ystyried adroddiad (gan gynnwys unrhyw argymhelliad) gan yr Ombwdsmon ar ymchwiliad sy'n cael ei gynnal i achos honedig o gamymddwyn, a yw am atal yr aelod neu'r aelod cyfetholedig dros dro, o'r awdurdod neu o rôl o fewn yr awdurdod, neu ei atal dros dro yn rhannol.

57. Yn wahanol i dribiwnlysoedd achos a thribiwnlysoedd apêl, nid yw tribiwnlysoedd achos interim yn ddisgyblaethol. Nod tribiwnlysoedd achos interim yw:

- hwyluso ymchwiliad effeithiol a chyflym gan yr Ombwdsmon i ymddygiad yr ymatebydd;
- lleihau unrhyw amhariad ar fusnes yr awdurdod dan sylw yn ystod yr ymchwiliad;
- cadw enw da'r awdurdod dan sylw;
- diogelu'r awdurdod dan sylw rhag her gyfreithiol.

58. Y pwerau sydd ar gael i dribiwnlys achos interim[16] yw atal yr Ymatebydd dros dro, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod dan sylw, am ddim mwy na chwe mis (neu, os yw'n fyrrach, am weddill cyfnod yr aelod yn ei swydd). Yn achos atal dros dro yn rhannol, bydd

[15] Adran 80, http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/22/section/80
[16] Adran 78(1), Deddf Llywodraeth Leol 2000

angen i’r tribiwnlys achos interim benderfynu o ba weithgaredd y mae’r ymatebydd i gael ei atal dros dro.

### Diben a phroses

59. Mae tribiwnlysoedd achos interim yn cydnabod nad oes canfyddiad pendant wedi’i wneud eto ynglŷn â dilysrwydd yr honiadau ynglŷn â’r Ymatebydd ac y gall unrhyw fath o atal dros dro gael effaith sylweddol ar rôl, hygrededd a materion ariannol aelod.

60. O ganlyniad, bydd tribiwnlysoedd achos interim yn ceisio cymryd y camau lleiaf posibl er mwyn sicrhau bod yr ymchwiliad yn cael ei gwblhau’n effeithiol, bod yr awdurdod dan sylw’n gweithredu’n briodol ac nad yw’r cyhoedd yn colli eu ffydd yn yr awdurdod. Ni fydd y tribiwnlys yn penderfynu atal aelod yn llawn oni bai y byddai’n methu â chyflawni ei amcanion fel arall.

#### *Natur yr honiad(au)*

61. Bydd tribiwnlysoedd achos interim yn dechrau drwy ystyried natur yr honiadau yn erbyn yr Ymatebydd er mwyn penderfynu, os bydd yr honiad yn cael ei gadarnhau, a fyddai atal dros dro neu atal dros dro yn rhannol yn gosb briodol.

#### *Peidio â chymryd camau pellach*

62. Os bydd y tribiwnlys yn dod i’r casgliad na fyddai canfyddiad o dor-amod yn arwain at atal dros dro neu atal dros dro yn rhannol, mae’n annhebygol iawn o wneud gorchymyn o’r fath heb roi rhesymau da pam na all ymchwiliad yr Ombwdsmon fynd yn ei flaen yn effeithiol heb gamau o’r fath.

63. Os bydd y tribiwnlys yn dod i’r casgliad y byddai canfyddiad o dor-amod yn arwain at atal dros dro neu atal dros dro yn rhannol, bydd angen iddo gael dadl gref o hyd bod atal yr Ymatebydd dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol o fudd i’r cyhoedd cyn i’r Ombwdsmon gwblhau ei ymchwiliad a chyfeirio adroddiad terfynol i Banel Dyfarnu Cymru.

#### *Atal Dros Dro yn Rhannol*

64. Mae atal dros dro yn rhannol yn cynnig y posibilrwydd o ddiogelu hyder y cyhoedd mewn awdurdod a’i alluogi i weithredu’n effeithiol heb amddifadu’r etholwyr o gynrychiolaeth i’w ward. Efallai y bydd tribiwnlysoedd achos interim yn dymuno dilyn yr egwyddorion sy’n berthnasol i ddull gweithredu tribiwnlysoedd achos a thribiwnlysoedd apêl mewn cysylltiad ag atal dros dro yn rhannol.

65. Gallai atal dros dro yn rhannol fod yn briodol mewn amgylchiadau lle mae’r honiadau’n uniongyrchol berthnasol i swyddogaeth neu faes cyfrifoldeb penodol ac yn anghyson â’r swyddogaeth a’r maes cyfrifoldeb, neu os yw’r Ymatebydd yn ymarfer swyddogaethau gweithredol ar ran yr awdurdod yr honnir ei fod ef neu hi wedi torri ei God, neu gellid gwahardd yr Ymatebydd o’i gyfrifoldebau penodol neu weithredol er mwyn tawelu ofnau’r cyhoedd heb

danseilio gallu’r awdurdod i weithredu’n effeithiol nac amddifadu’r etholwyr o gynrychiolaeth i’w rhanbarth/ward.

### *Atal dros dro*

66. Mae atal dros dro yn debygol o fod yn briodol os oes pryder dilys ynglŷn ag unrhyw un o’r canlynol:

- gallai’r Ymatebydd ymyrryd â thystiolaeth neu â thystion sy’n berthnasol i’r mater sy’n cael ei ymchwilio;
- ni allai’r awdurdod dan sylw weithredu’n effeithiol pe bai’r Ymatebydd yn parhau yn ei swydd tra bo’r honiad yn ei erbyn ef neu hi yn dal heb ei ddatrys – bydd y tribiwnlys yn rhoi sylw arbennig i unrhyw fethiant neu fethiant posibl yn y berthynas rhwng yr Ymatebydd, aelodau eraill a/neu staff allweddol yr awdurdod;
- mae’r honiadau’n codi materion difrifol iawn, a phe bai’r Ymatebydd yn parhau yn ei swydd tra bo’r honiadau’n dal heb eu datrys byddai hyder y cyhoedd yn yr awdurdod yn cael ei roi yn y fantol.

## Atodiad: dogfennau a chanllawiau eraill sy'n berthnasol i dribiwnlysoedd

Panel Dyfarnu Cymru : Llawlyfr Aelodau (2017)

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau tân ac achub, ac awdurdodau parciau cenedlaethol: Canllawiau (Awst 2016) a'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau cynghorau cymuned: Canllawiau (Awst 2016)

Equal Treatment Bench Book, Y Coleg Barnwrol (fel y'i diwygiwyd)

Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001 Rhif 2288 (Cy.176), fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Tribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim a Phwyllgorau Safonau) (Diwygio) (Cymru) 2009 Rhif 2578 (Cy.209)

Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 Rhif 2281 (Cy.171), fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016 Rhif 85 (Cy.39)

**RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU**

| DYDDIAD Y CYFARFOD | EITEMAU / MEYSYDD ADRODDIAD | AWDUR YR ADRODDIAD |
|---|---|---|
| **30 Tachwedd 2018** | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd | Amh |
| | Eitem Sefydlog: Llyfr Achosion Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | | |

Diweddarwyd 12/9/2018 - SP

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag